# Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

# Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy 2011-12

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru Tachwedd 2012

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 3 |
| Sylwadau gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Chynnal Cymru | 4 |
| **Pennod 1:** Datblygu Cynaliadwy – yr brif egwyddor drefniadol | 5 |
| **Pennod 2:** Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy | 8 |
| **Pennod 3:** Cynnal yr Amgylchedd | 13 |
| **Pennod 4:** Economi Gynaliadwy | 19 |
| **Pennod 5:** Cymdeithas Gynaliadwy | 25 |
| **Pennod 6:** Lles Cymru | 31 |
| **Pennod 7:** Adolygiad o Effeithiolrwydd – y Camau Nesaf | 40 |
| **Pennod 8:** Adrodd ar gyflwr yr ystâd | 51 |


Dyma Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, a luniwyd dan adran 79(6)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006

## Rhagair y Gweinidog



Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy; y pedwerydd ers lansio *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*, ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, yn 2009. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012, ac yn amlinellu sut y rhoddwyd y cynigion a nodwyd ar waith.

Dyma ail Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ers i mi fod yn Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ac mae adroddiad eleni yn dangos tystiolaeth gynyddol sy'n pwysleisio sut rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn defnyddio datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol ar gyfer ein gwaith ledled Cymru. Mae'n amlwg i mi fod ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol popeth rydym ni'n ei wneud a'r penderfyniadau a wnawn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni ymgyrchu'n barhaus dros welliannau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd ar droed a chynnydd o ran datblygu cynaliadwy.

Ym mis Ionawr eleni, comisiynais adolygiad allanol o effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy fel rhan o'r broses adolygu statudol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Nododd nifer o 'gamau nesaf' sy'n awgrymu sut gallwn fynd i'r afael â rhai o'r materion sydd angen i ni eu datrys er mwyn cyflawni canlyniadau'r Cynllun yng Nghymru, ac rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein camau gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

Yn arwyddocaol, mae ein cynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy arloesol yn mynd rhagddynt yn dda. Bydd y Bil hwn yn rhoi dyletswydd arnom ni a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill i gryfhau'r fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Byddaf yn cyhoeddi Papur Gwyn yn fuan ar ein cynigion.

Mae adroddiad eleni'n dystiolaeth gadarnhaol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru.



John Griffiths, AC
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

**Sylwadau gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Chynnal Cymru**



Nod y Cynllun Datblygu Cynaliadwy *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* yw ymwreiddio datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth. Mae'r sylwadau hyn yn rhoi persbectif annibynnol ar yr adroddiad cynnydd blynyddol ac mae'n seiliedig ar fy rôl fel Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy gyda chefnogaeth Cynnal Cymru. Gwelais bethau ardderchog yn yr adroddiad, ynghyd â rhai bylchau, a rhai meysydd y buaswn yn dymuno eu gweld yn cael eu datblygu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Mae eleni wedi bod yn bwysig o ran gwneud cynnydd i ymwreiddio datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol yn sector cyhoeddus Cymru, gyda Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gyflwyno Bil Datblygu Cynaliadwy. Hefyd yn ystod y flwyddyn hon, cwblhawyd yr Adolygiad Statudol o Effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, sy'n ofynnol ar ôl pob etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Effeithiolrwydd yn bwysig i gefnogi datblygiad y Bil Datblygu Cynaliadwy, ac mae'n dda gweld Llywodraeth Cymru'n adrodd yn fanwl ar y gwaith sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed.

Y llynedd, gwneuthum argymhellion am newidiadau i strwythur yr adroddiad blynyddol er mwyn darparu darlun cliriach o berfformiad cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru fel sefydliad. Mae'r adroddiad hwn bellach yn rhoi darlun mwy manwl o effaith y Llywodraeth ei hun wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau, gydag ystod well o ddata wedi'i gynnwys yn yr Atodiad. Bydd hi'n bwysig i'r Llywodraeth ddilyn safonau rhyngwladol a osodir ar gyfer llunio adroddiadau integredig er mwyn parhau i wella ansawdd yr elfen hon o'r adroddiad.

Rwy'n parhau'n bryderus ynglŷn ag agweddau ar strwythur a chynnwys yr adroddiad. Mae angen gosod *prawf perthnasedd* llawer cryfach ar y cynnwys gan fod y tueddiad a nodwyd y llynedd i ddewis a dethol cynnwys yn dal i fod yn wir. Wrth ystyried prawf perthnasedd, rwy'n bryderus fod nifer o feysydd pwysig nad ydynt yn cael digon o sylw yn yr adroddiad hwn: ychydig o sylw a roddir i sectorau hollbwysig fel bwyd, twristiaeth ac amaethyddiaeth, ac mae gwendid cyffredinol yn yr adran ar yr economi. Mae hyn yn syndod gan y gwn fod nifer o enghreifftiau gwych o gynnydd tuag at economi carbon isel nad ydynt yn cael sylw. Y gobaith yw y gwelaf ffocws llawer cryfach ar gynnydd yn y sector nwyddau a gwasanaethau carbon isel yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Mae rhai rhannau o'r adroddiad i'w gweld yn hyrwyddo arian a ddyrennir ac a werir ar gynlluniau yn hytrach na hyrwyddo'r canlyniadau a'r manteision i gynaliadwyedd sy'n deillio o'r cynlluniau hynny. Mae llwyddiant rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn dangos fod modd defnyddio cyllideb fach i ysgogi effeithiau sylweddol gan alluogi gwlad o faint Cymru i wneud cyfraniad go iawn i ddatblygu cynaliadwy rhyngwladol.

Mae angen i ni hefyd ddeall sut y mae'r adroddiadau naratif ynglŷn â pholisïau a rhaglenni yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i gynnydd ar gyfres o ddangosyddion lefel uchel y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Mewn rhannau, mae'r adroddiad hwn yn parhau i deimlo fel dau adroddiad ar wahân, heb fawr o gysylltiad rhwng yr adroddiadau ffeithiol am gynnydd yn erbyn y dangosyddion a'r adroddiad naratif ynglŷn â'r camau gweithredu a roddwyd ar waith.

Mae'r adroddiad blynyddol yn gyfle pwysig i wneud asesiad o gynnydd wedi'i fesur gan y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru, ac effaith polisi Llywodraeth Cymru ar y mesuriadau hyn. Mae llawer o'r ffynonellau data a oedd yn y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy wedi dyddio oherwydd y prosesau ar gyfer eu casglu yn ôl safonau Ystadegau Gwladol, a bydd llawer hefyd yn dangos newidiadau bach yn flynyddol. Fodd bynnag, mae cyfle i gyfeirio at ddata diweddar neu dueddiadau yn yr adroddiad blynyddol o ran arwyddion hanfodol fel ynni adnewyddadwy a lefelau diweithdra ymhlith ieuenctid. Hoffwn weld dadansoddiad llawer mwy manwl yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed ar ynni adnewyddadwy fel elfen hollbwysig yn ein cynnydd tuag at economi carbon isel. Mae'n wybyddus fod cyfnodau hir o ddiweithdra'n gallu effeithio'n sylweddol ar les hirdymor pobl ifanc, gyda chostau cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig, ac felly byddai prawf perthnasedd yn galw am eu trafod yn yr adroddiad.

Mewn adroddiadau yn y dyfodol, rwy'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd gwell o ddangos y cysylltiadau rhwng y naratif ar gyflenwi a mesuriadau cynnydd. Os yw cynnydd yn y dangosyddion yn amhendant, neu os yw'r rhesymau wrth wraidd y cynnydd yn annhebygol o barhau'r tueddiadau (er enghraifft, y dirwasgiad yn lleihau cyfraddau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgil allbwn diwydiannol is), byddai prawf perthnasedd yn sicrhau bod dadansoddiad manwl yn cael ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad.

Yn ystod y flwyddyn, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynglŷn â nifer o feysydd polisi fel cynllunio a chaffael, sydd wedi bod yn destunau gwahanol adolygiadau annibynnol ers hynny. O ran addysg, mae pryder ynglŷn â cholli ffocws ar elfen Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang y cwricwlwm. Mae ymrwymiad y Llywodraeth i wella safonau addysg yn allweddol i ddyfodol cynaliadwy, ac mae'r ffocws cynyddol ar sectorau'r economi werdd yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau allweddol. Rwy'n argymell bod y Llywodraeth yn gofyn i Estyn gynnal astudiaeth ag iddi gylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, er mwyn diweddaru'r astudiaeth ddiwethaf yn 2006, gyda golwg ar sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad uniongyrchol i berfformiad cyffredinol ysgolion ac yn darparu llwyfan ar gyfer y wybodaeth, yr agweddau a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi werdd.

Eleni, mynegodd nifer o randdeiliaid eu pryder ynglŷn â'r Siarter Datblygu Cynaliadwy a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Caiff hwn ei ystyried yn gyffredinol fel offeryn gwerthfawr i annog a galluogi sefydliadau i wneud ymrwymiad gwirfoddol, rhannu arferion a gwella safonau er mwyn gwneud cynaliadwyedd yn rhywbeth go iawn. Fodd bynnag mae llawer o'i lofnodwyr o'r farn nad yw'n cael digon o gefnogaeth ariannol, nac yn cael ei ddatblygu a'i werthfawrogi ddigon. Os yw'r cysyniad o Siarter yn mynd i gyflawni ei botensial fel opsiwn gwirfoddol ochr yn ochr â'r gofynion statudol a argymhellwyd ar gyfer y Bil DC, rhaid ei sicrhau bod ganddo

fwy o hygrededd. Fy ngobaith hefyd yw y gall adroddiadau yn y dyfodol roi mwy o bwyslais ar bartneriaethau â llofnodwyr y Siarter ar gyfer cyflawni polisi.

Mae arferion caffael yn fater sy’n dal i godi’i ben, er i’r arweiniad a ddangoswyd gan Gwerth Cymru greu argraff arnaf. Yn fwyaf arbennig, mae’r offeryn rhagorol, Manteision Cymunedol, yn tynnu sylw at arferion da. Codwyd materion penodol ynglŷn â mater caffael bwyd yn y sector cyhoeddus ac rwy’n argymell y dylid mabwysiadu Nod Arlwyo “Bwyd am Oes” fel safon meincnodi ar draws y maes caffael bwyd yn y sector cyhoeddus.

Mae’r adroddiad blynyddol hwn yn offeryn statudol pwysig i sicrhau atebolrwydd wrth gyflawni’r Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Rwy’n gobeithio y bydd y Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig yn cynnwys dyletswydd statudol ar y sector cyhoeddus i ymgorffori arferion gorau wrth lunio adroddiadau integredig. Dylai’r egwyddor hon fod yn berthnasol hefyd i adroddiadau Llywodraeth Cymru, er mwyn sefydlu proses adrodd integredig ac ystyrlon sy’n dangos sut mae’r Rhaglen Lywodraethu yn cyfrannu at ein mesuriadau cynnydd hirdymor, fel y cânt eu hadlewyrchu yn y dangosyddion datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru, a sut mae gweithrediadau’r Llywodraeth ei hun yn esiampl i eraill o gynaliadwyedd.



Peter Davies
Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy

## Pennod 1 Datblygu Cynaliadwy – Y Brif Egwyddor Drefniadol

Yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy – *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* (2009) – mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai datblygu cynaliadwy fyddai'r brif egwyddor drefniadol ar ei chyfer ac mae'n annog a galluogi eraill yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru i fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. Bydd hyn yn rhoi ymdeimlad cadarn o ddiben a'r fframwaith sydd ei angen i sicrhau newidiadau gwirioneddol a pharhaus i weddnewid bywydau pobl ym mhob cwr o Gymru. Datblygu cynaliadwy yw'r broses sy'n ein helpu i ddiffinio'r llwybr datblygu hirdymor gorau ar gyfer Cymru.

Bydd ein polisïau a'n rhaglenni yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a thegwch, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu (2011) yn ategu pwysigrwydd lle datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol wrth ddiffinio'r llwybr datblygu gorau ar gyfer Cymru. Diffiniad Cymru o ddatblygu cynaliadwy yw pwysleisio lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer pobl a chymunedau, gan ymgorffori ein gwerthoedd o degwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n rhaid i ni hefyd edrych tua'r dyfodol yn y penderfyniadau a wnawn yn awr, gan ystyried bywydau plant ein plant yn ogystal â chenedlaethau presennol.

Mae'r rhaglen yn nodi'r:

- canlyniadau hirdymor y mae'r Llywodraeth am eu cyflawni;
- y dangosyddion lefel uchel y byddwn yn eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at y canlyniadau hyn;
- y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hynny; a'r
- dangosyddion o brosesau neu allbwn y byddwn yn eu defnyddio i weld a yw'r camau gweithredu hynny ar y trywydd iawn.

Mae'r rhaglen hefyd yn nodi ymrwymiad i ddeddfu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru, a chreu corff datblygu cynaliadwy annibynnol ar gyfer Cymru.

### Ein proses adrodd

Dyma'r pedwerydd adroddiad, o dan adran 79(6)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn erbyn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy cyfredol a'r cynnydd rydym wedi'i wneud i gynnwys datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru. Mae adroddiadau blaenorol wedi ystyried sut rydym wedi cyflawni'r 18 cam gweithredu lefel uchel a nodir yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2010-11, adroddwyd ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud yn erbyn pob un o'r camau gweithredu hyn. Rydym yn awyddus i adrodd sut mae ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy wedi bod yn sail i'n polisïau a'n rhaglenni. Felly, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu hynny sy'n amlygu ein pwyslais ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau.

Mae Penodau 2 – 6 yn nodi'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd yn erbyn y pum maes yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy sy'n cynnwys y weledigaeth a'r dangosyddion perthnasol ar gyfer:

- Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy
- Cynnal yr Amgylchedd
- Economi Gynaliadwy
- Cymdeithas Gynaliadwy; a
- Lles Cymru

Fel rhan o'r broses adolygu statudol sy'n ofynnol o dan adran 79(7)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sef mesur effeithiolrwydd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, nodwyd nifer o gamau gweithredu neu "gamau nesaf" gan yr ymgynghorwyr annibynnol a gynhaliodd yr adolygiad ym mis Ionawr 2012. Cafwyd addewid gennym i adrodd yn ôl ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf. Gwelir hyn ym mhennod 7 yr adroddiad.

Mae Pennod 8 yn nodi'r gweithgareddau amrywiol a gynhelir o fewn Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi gweithgareddau perthnasol fel cydraddoldeb, iechyd, gwirfoddoli, yr iaith Gymraeg, codi arian i elusennau, perfformiad amgylcheddol ac effeithlonrwydd adnoddau ystâd Llywodraeth Cymru.

**Dangosyddion**

Rydym yn mesur ein cynnydd ym maes datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy ein Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Cyhoeddwyd y ffigurau datblygu cynaliadwy diweddaraf ym mis Awst 2012 ac maent yn dangos fod Cymru wedi cynyddu ei hallbwn economaidd, wedi cynyddu ei chynhyrchiant ynni adnewyddadwy, ei bod yn ailgylchu a chompostio mwy o'i gwastraff a'i bod yn gwella'r ffordd y mae'n rheoli dŵr. Cyfeirir at y dangosyddion hyn ym mhob un o'r penodau canlynol yn yr adroddiad i ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Hefyd, rydym yn mesur cynnydd wrth gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Er bod dangosyddion y Rhaglen Lywodraethu yn fwy helaeth, daw'r mwyafrif o'r dangosyddion o'n dangosyddion cyfredol ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Bydd y Rhaglen Lywodraethu yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn ystod tymor presennol y Cynulliad ac yn cynnig tryloywder ynglŷn â pha gamau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith ac sy'n cael yr effaith a fwriadwyd. Bydd adroddiadau ar gynnydd y Rhaglen yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol; cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Mai 2012.

Mae edrych ar gyfresi priodol o ddangosyddion yn rhan o'r broses barhaus o adolygu'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar y Rhaglen Lywodraethu pan fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2013.

Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein cyfres gyfredol o ddangosyddion datblygu cynaliadwy fel rhan o'r gwaith ehangach sy'n cyd-fynd â'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried y canlynol:

- A yw'r dangosyddion cyfredol yn addas i'w diben o hyd
- A yw'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth ar hyn o bryd yn diwallu anghenion defnyddwyr;
- Sut y dylid mesur neu adrodd ar newidiadau yn y dangosyddion; a
- Sut mae sefydliadau a rhanddeiliaid eraill yn defnyddio'r wybodaeth i lywio eu hagwedd at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Yn aml, nid oes llawer o gynnydd, os o gwbl, yn achos nifer fawr o'r dangosyddion. Mae hyn yn adlewyrchu natur y dangosyddion a'r ffaith bod symudiadau'n digwydd yn raddol a thros gyfnod maith. Felly, dylid ystyried y dangosyddion i gyd gyda'i gilydd er mwyn cael synnwyr o'r cyfeiriad cyffredinol.

## Pennod 2 Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy

O fewn oes cenhedlaeth, rydym am sicrhau mai dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear y bydd Cymru yn ei defnyddio, gan leihau ein hôl troed ecolegol i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfartaledd yn fyd-eang - 1.88 hectar byd-eang y pen. Ystyr oes cenhedlaeth yw ein bod am weld y newidiadau hyn erbyn yr adeg pan fydd ein plant yn oedolion. Er mwyn cyflawni'r nod hwn dros genhedlaeth, bydd angen i ni leihau o ddau draean gyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwn ar hyn o bryd i gynnal ein ffyrdd o fyw.

### EIN CAMAU GWEITHREDU

Mae'r adrannau canlynol yn amlygu meysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud wrth wneud gwell ddefnydd o adnoddau ledled Cymru.

### Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd

Mae'r Is-adran Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd yn ceisio cynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru a gostwng tlodi tanwydd a chefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy bach ac ynni adnewyddadwy cymunedol.

Darparodd NEST gyngor a chymorth i dros 15,000 o aelwydydd yng Nghymru gyda dros 3,600 yn derbyn pecynnau gwella ynni'r cartref. Rhoddwyd cyllid ychwanegol i Arbed er mwyn i 1,500 pellach o gartrefi dderbyn cymorth effeithlonrwydd ynni.

Yn ystod cyfnod cyntaf ei chynllun *Arbed* llwyddiannus, darparodd Llywodraeth Cymru gwerth £30 miliwn o gyllid a sicrhaodd £30 miliwn pellach i wella perfformiad ynni 25,000 o gartrefi yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Arweiniodd hyn hefyd at hwb o ran swyddi, sgiliau ac adfywio yn yr ardaloedd hyn. Yn ail gyfnod *Arbed*, bydd £45 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros y 3 blynedd nesaf i wella'r mesurau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy mewn cartrefi sy'n bodoli'n barod yng Nghymru.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, awdurdodau lleol a phartneriaid i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Fargen Werdd ac ECO. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth Garbon, a noddir gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau arbedion $CO^2$ gwerth 560,000 tunnell drwy ei gwaith yng Nghymru. Darparodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a noddir gan Lywodraeth Cymru, gyngor ar effeithlonrwydd ynni, cynlluniau ynni adnewyddadwy bach fel paneli solar a thrafnidiaeth fwy effeithlon.

Mae rhaglenni allweddol yn cael eu gweithredu'n barhaus, gan gynnwys NEST, Arbed cyfnod 2, Ynni'r Fro. Mae gwaith ar y gweill o hyd i baratoi ar gyfer y Fargen Werdd ac ECO. Ar hyn o bryd, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sy'n adolygu a chwmpasu cyngor a chymorth ym maes effeithlonrwydd ynni i'r dyfodol.

### Cynllunio

Yn 2011/12, rydym wedi parhau i ddiweddaru a chyhoeddi polisïau a chanllawiau newydd i gryfhau ymhellach gyfraniad cynllunio wrth i ni geisio gwireddu ein gweledigaeth o Gymru gynaliadwy.

Cyhoeddwyd ymchwil ar sefydlu Fframwaith Monitro Strategol ar gyfer y System Gynllunio yn 2011. Nod yr ymchwil hon oedd nodi fframwaith i fonitro'n effeithiol ganlyniadau datblygu cynaliadwy'r system gynllunio; nodi ffyrdd o ddefnyddio'r Ôl Troed Ecolegol fel dangosydd cyfansawdd i fesur canlyniadau datblygu cynaliadwy'r system gynllunio; ac archwilio a deall y ffyrdd y gellir defnyddio'r Ôl Troed Ecolegol yn y system gynllunio. Ym mis Ionawr 2012, aethom ati i ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn cryfhau'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio yng Nghymru. Cyhoeddwyd y newidiadau hyn mewn fersiwn wedi'i diweddaru o Bolisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi ein polisi ar y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy, o fewn cyd-destun y system cynllun datblygu. Rydym hefyd wedi ymestyn Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer cyfarpar microgynhyrchu domestig ac annomestig, sy'n osgoi'r angen i sicrhau caniatâd cynllunio cyn gosod ystod eang o gyfarpar cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

**Ysgolion yr gyfer yr 21ain Ganrif**

Un o elfennau allweddol y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yw datblygu safon ysgol sy'n canolbwyntio ar ysgolion cynaliadwy. Bydd yn darparu canllawiau ymarferol ar wneud ysgolion yn fwy amgylcheddol gynaliadwy drwy leihau'r defnydd o garbon, allyriadau $CO^2$, a gwella'r amgylchedd ysgol.

Cyn y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, roedd prosiectau buddsoddi mewn ysgolion pontio ac Addysg Bellach (AB) ar waith.

Drwy'r prosiectau hyn, rydym wedi gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Sefydliadau AB i sicrhau bod holl brosiectau cyfalaf adeiladau ysgolion newydd yn cyflawni safon 'ragorol' BREEAM. Bydd 35 o brosiectau pontio yn cyflawni'r safon hon erbyn 2014-15.

Mae Awdurdod Lleol Caerffili wedi cwblhau ac agor ysgol gynradd fodern yn Greenhill. Mae hon yn enghraifft ragorol o gynaliadwyedd a hi yw'r ysgol gyntaf yng Nghymru a Lloegr i ennill Tystysgrif Perfformiad Ynni A+ ac enillodd y 'Wobr Carbon Isel/Sero' yng ngwobrau blynyddol 'Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2011'.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i gryfhau ein cysylltiadau gwaith â'r grŵp Dyfodol Cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod amodau'r cyllid grant cyfalaf yn cefnogi'r Agenda Cynaliadwyedd. Bydd yr holl ganllawiau a phecynnau cymorth i gynorthwyo Awdurdodau Lleol a Sefydliadau AB yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau Datblygu Cynaliadwy wrth i Lywodraeth Cymru wneud buddsoddiad cyfalaf ym maes addysg.

**Ystadau Iechyd**

Mae'r GIG wedi parhau i ganolbwyntio ar ostwng allyriadau a'r defnydd o ynni. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r GIG – Partneriaeth Cydwasanaethau – Gwasanaethau Cyfleusterau a Sefydliad Amgylchedd Stockholm

i nodi sut gall y GIG symud tuag at GIG carbon isel. Un o brif elfennau hyn yw'r gofyniad i holl gyrff y GIG yng Nghymru sefydlu System Reoli Amgylcheddol a fydd yn cael ei hardystio i safon ryngwladol ISO 14001. Bydd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gynnal eu hardystiad ISO 14001 a chynyddu eu diweddariadau. Mae'r targedau fel a ganlyn:-

- Pob prif safle ysbyty erbyn mis Rhagfyr 2012;
- 50% o'r ystâd ym mhob BILl ac ymddiriedolaeth erbyn mis Rhagfyr 2013;
- 100% o'r ystâd erbyn mis Rhagfyr 2014.

Hefyd, mae pecyn wedi'i ddatblygu fel y gall cyrff y GIG gyfrifo eu hallyriadau yn flynyddol. Bydd cynnydd yn y dyfodol yn cael ei fesur yn erbyn llinell sylfaen 2010/11.

**Rhaglen Ynni Cymru**

Lansiodd y Prif Weinidog *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*, ym mis Mawrth 2012, sy'n nodi ein huchelgais ar gyfer harneisio ein potensial ynni mewn ffordd sy'n ein galluogi i newid i economi carbon isel cynaliadwy. Mae'n nodi "Rydym am fabwysiadu dull gwirioneddol gynaliadwy o newid i economi carbon isel yn unol â'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol".

Er mwyn hwyluso'r dull hwn, defnyddiwyd Rhaglen Ynni Cymru i gysoni, blaenoriaethu a chydgysylltu ymdrech Llywodraeth Cymru a gweithredu 'Ynni Cymru'.

Mae Rhaglen Ynni Cymru yn datblygu ein cynlluniau a'n dulliau gweithredu i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y grwpiau allweddol, sef manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru.

Nod y Rhaglen yw nodi a chyfathrebu'n glir sut mae pob elfen o'n hymdrech yn arwain at fanteision i Gymru a sut bydd y manteision hynny yn datblygu gydag amser. Mae'r Rhaglen yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a chyda phartneriaid sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector allweddol i gyflawni'r nod hwn.

**Gwastraff**

Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddwyd Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y strategaeth gwastraff drosfwaol ar gyfer lleihau ôl troed ecolegol Cymru drwy atal gwastraff, paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer ynni gwastraff. Cadarnhaodd y cerrig milltir allweddol sef gostwng gwastraff o 1.5% bob blwyddyn, sicrhau bod o leiaf 70% o bob ffrwd wastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2025, lleihau faint o wastraff gweddilliol sy'n cael ei gynhyrchu erbyn 2025; ac, erbyn 2050, rydym yn gobeithio cael gwared yn raddol ar ein gwastraff gweddilliol drwy fynd i'r afael â defnydd a chynhyrchu cynaliadwy a sicrhau gostyngiad cyffredinol o 75% yn y gwastraff sy'n codi.

Rhwng 1998-99 a 2004-05, cynyddodd cyfanswm y gwastraff dinesig a gynhyrchir yng Nghymru y flwyddyn o bron i 400 mil o dunelli. Fodd bynnag, ers 2004-05, mae cyfanswm y gwastraff dinesig a gynhyrchir yng Nghymru bob blwyddyn wedi bod yn gostwng blwyddyn ar ôl blwyddyn. Erbyn 2011-12 roedd wedi gostwng o dros

361,116 o dunelli ers cyrraedd ei benllanw yn 2004-05. Mae cyfran y gwastraff o gartrefi sy'n cael ei hailgylchu neu ei chompostio wedi cynyddu'n barhaus ers 1996-97. Yn 2010-12, roedd 49.2% o wastraff o gartrefi yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio.

Cyfrannodd Llywodraeth Cymru Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy gwerth £71 miliwn yn 2011-12 i helpu i gynyddu ailgylchu mewn awdurdodau lleol. Erbyn mis Mawrth 2012, aeth cynghorau lleol ati i ddarparu gwasanaeth casglu ar wahân ar gyfer gwastraff bwyd i tua 92% o aelwydydd yng Nghymru.

Rydym wedi rhoi cefnogaeth i fusnesau a chyrff cyhoeddus gyrraedd targedau atal gwastraff ac ailgylchu drwy raglenni a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, Canolfan Ecoddylunio Cymru, a Chanolfan Ragoriaeth Cymru ar gyfer Treulio Anaerobig. Darparwyd cefnogaeth i'r sector mentrau cymdeithasol drwy ein cyllid craidd ar gyfer Cylch, Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru. Darparwyd cefnogaeth bellach i'r sector mentrau cymdeithasol gan ystod o grantiau a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Rheoliadau Adeiladu**

Ar 31 Rhagfyr 2011, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Rheoliadau Adeiladu i Weinidogion Cymru, gan ddarparu, ymysg pethau eraill, y cyfle i wella cynaliadwyedd adeiladau a gwaith adeiladu. Ym mis Ionawr 2012, sefydlwyd Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu, ac un o'i dasgau cyntaf oedd cynorthwyo i ddatblygu newidiadau arfaethedig ym mherfformiad ynni adeiladau newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wella safonau ynni tai newydd o 55%.

Bydd deddfwriaeth Ewropeaidd yn golygu cam sylweddol yn ein perfformiad ynni erbyn 2020. Yn 2015, rydym yn bwriadu cyflwyno newidiadau i Ran L y Rheoliadau Adeiladu fel cam tuag at fodloni'r gofyniad hwnnw. Drwy ei gyflwyno'n raddol bydd y diwydiant adeiladu'n gallu cynllunio ymlaen a chredwn y dylid pennu yr opsiwn o'n dewis, sef gwelliant ar safle o 40% mewn allyriadau carbon ar gyfer tai newydd, i'r dyfodol rhagweladwy. Mae hwn yn ddull a fydd yn parhau i gynnig buddiannau yn yr hirdymor a manteision cymdeithasol ac economaidd pwysig. Bydd hefyd yn cyfrannu at ostwng allyriadau $CO^2$ Cymru, gan wella lles pobl a chymunedau.

**Dangosyddion**

**Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy:** Ôl Troed Ecolegol Cymru

**Cynnydd:**

Y ffigur diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ôl troed ecolegol Cymru yw 4.4 hectar byd-eang y pen (2006), sydd yn dal yn fwy na dwbl cyfartaledd cyfran y byd, ac ychydig yn is na chyfartaledd y DU (4.6). Daw'r ffigur hwn, sydd heb ei ddiweddaru er 2006, o gyfnod cyn cyhoeddi cynllun Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

- **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr**

Y patrwm cyffredinol yw yr amcangyfrifir gostyngiad o 15 y cant mewn allyriadau o'r fasged o nwyon tŷ gwydr o Gymru yn 2010 ers y flwyddyn sail (1990/1995). Yn fwy diweddar, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi bod yn cynyddu. Roedd allyriadau 2010 wedi cynyddu 8 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- **Gwastraff yn Codi**

Rhwng 1998-99 a 2004-05, roedd cyfanswm y gwastraff dinesig a gynhyrchwyd yng Nghymru bob blwyddyn wedi codi bron i 400 mil tunnell. Fodd bynnag, er 2004-05, mae cyfanswm y gwastraff dinesig a gynhyrchir yng Nghymru bob blwyddyn wedi bod yn lleihau o un flwyddyn i'r llall. Erbyn 2010-11 roedd wedi lleihau dros 300 mil tunnell ers y pwynt uchel yn 2004-05.

- **Gwastraff o Gartrefi**

Mae cyfanswm y gwastraff o gartrefi a gynhyrchir yng Nghymru wedi gostwng ar y cyfan ers 2004-05 i 466kg y person yn 2010-11. Cyn hyn, roedd y cyfanswm y person wedi bod yn cynyddu ar y cyfan. Mae cyfran y gwastraff o gartrefi sy'n cael ei hailgylchu neu ei chompostio wedi cynyddu'n gyson ers 1996-97. Yn 2010-11, roedd 45% o wastraff o gartrefi'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio.

- **Symudedd**

Roedd nifer y siwrneiau a wneir y pen bob blwyddyn drwy gerdded a seiclo wedi disgyn rhwng 1995/00 a 2002/03. Mae'r siwrneiau a wneir y pen bob blwyddyn wedi cynyddu rhywfaint yn ddiweddar, ond maent yn parhau'n is nag yn 1995/01. O ran teithio i'r gwaith, yn 2011, roedd 81 y cant o bobl yn teithio i'r gwaith mewn car, fan, bws mini neu fan gwaith – cwymp bychan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu rhywfaint o gynnydd i 12 y cant yn teithio i'r gwaith drwy gerdded neu seiclo, ac 8 y cant yn teithio i'r gwaith drwy ddefnyddio math arall o drafnidiaeth.

**Pennod 3 Cynnal yr Amgylchedd**

Yr amgylchedd naturiol yw prif ffynhonnell yr adnoddau sylfaenol a ddefnyddiwn i ddatblygu ein heconomi. Mae'n rhoi mwynhad ac yn ysbrydoli, mae'n cyfrannu at ein lles corfforol a meddyliol, mae'n sail i'n diwylliant, ac mae'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le a'n hunaniaeth. Mae amgylchedd cynaliadwy a reolir yn gynaliadwy hefyd yn hollbwysig i fusnes twristiaeth Cymru. Yn ogystal, mae gan amrywiaeth y bywyd ar y ddaear ei werth annatod ei hun. Mae angen inni reoli'n tir a'n moroedd yn well er mwyn iddynt gynnal ystod eang o wasanaethau ecosystem.

**EIN CAMAU GWEITHREDU**

Mae'r adrannau canlynol yn amlygu meysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud tuag at ein gweledigaeth o gynnal yr amgylchedd.

**Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd**

Cyhoeddwyd Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau law yn llaw â'r Strategaeth ac mae'n nodi'r polisïau a'r rhaglenni rydym yn disgwyl y byddant yn helpu i gyrraedd targed Cymru o ostwng allyriad nwyon tŷ gwydr o 3% y flwyddyn mewn ardaloedd o gymhwysedd datganoledig, yn erbyn llinell sylfaen o'r allyriadau ar gyfartaledd rhwng 2006 a 2010. Mae ymrwymiad ar wahân hefyd yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd i ostwng allyriadau Cymru o 40% o lefelau 1990 erbyn 2020.

Mae'r targed 3% yn cynnwys yr holl allyriadau nwyon tŷ gwydr 'uniongyrchol' yng Nghymru ar wahân i'r rhai sy'n deillio o ddiwydiant trwm a chynhyrchu pŵer, sy'n cael eu diffinio'n fras fel y gweithfeydd hynny sy'n cael eu cynnwys yn System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd, er bod allyriadau yn sgil cynhyrchu trydan wedi'u dyrannu yn ôl defnyddwyr.

Daeth pedwerydd adroddiad cynnydd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd i'r casgliad bod y data diweddaraf o Gymru ar allyriadau'r economi yn ei chyfanrwydd (ar gyfer 2010 ar hyn o bryd) yn dangos gostyngiad o 15%.

**Rheoli Llifogydd ac Arfordiroedd**

Mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn dangos sut rydym ni'n mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy o ran sut mae wedi cyfrannu'n sylweddol at yr economi, cyflogaeth ac ansawdd tai drwy sicrhau bod prosiectau lliniaru perygl llifogydd yn cael eu creu a'u cynnal. Rydym wedi darparu cyllid sydd wedi galluogi'r economi i elwa ar lai o darfu i'r seilwaith drafnidiaeth yn ystod tywydd garw, gan roi sicrwydd i gymunedau a busnesau bod eu cartrefi mewn llai o berygl o lifogydd a chodi ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n parhau.

Yn 2011-2012, derbyniodd Awdurdodau Lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd £24 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf ar liniaru llifogydd, ynghyd â £2.6 miliwn o Gyllid Ewropeaidd. Rhoddwyd £17 miliwn pellach i Asiantaeth yr Amgylchedd i gynnal Prif Afonydd Cymru. Defnyddiwyd cyllid Ewropeaidd i hybu'r cyllid a oedd ar gael ac adeiladu gweithfeydd drud i ddiogelu'r arfordir na fyddai

wedi'u hadeiladu fel arall ac mewn cymunedau arfordirol sy'n agored i'r risg o lifogydd llanw.

Gofynnwyd am £15 miliwn ychwanegol gan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru er mwyn gwneud iawn am y gostyngiad mewn cyllidebau cyfalaf a lleihau'r peryglon llifogydd i rai o'r 220 o ysgolion a meithrinfeydd ar y gorlifdiroedd, ynghyd â diogelu'r economi drwy leihau'r peryglon i 800 o orsafoedd cynhyrchu trydan ar orlifdiroedd.

Bydd y cynigion yn creu tua 360 o swyddi yn y diwydiant adeiladu ac yn helpu i ddiogelu ysgolion ac ysbytai a oedd wedi'u lleoli'n hanesyddol ar y gorlifdiroedd. Bydd y cynlluniau hefyd yn helpu i amddiffyn 22km o draffyrdd a 400km o reilffyrdd yng Nghymru, ynghyd â 2,300km o ffyrdd dosbarth 'A'.

**Cynllunio Adnoddau Naturiol**

Rydym yn cyflwyno dull newydd sbon o reoli a rheoleiddio amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru. Y nod yw sicrhau bod gan Gymru ecosystemau amrywiol a gwydn sy'n cynnig manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol heddiw ac yn y dyfodol.

Y cynnig canolog yw symud tuag at ddull ecosystem o reoleiddio a rheoli'r amgylchedd. I sicrhau lles amgylcheddol Cymru yn yr hirdymor, mae iechyd yr ecosystemau sy'n rhan o'n hamgylchedd yn hanfodol. Mae defnyddio dull ecosystemau yn cydnabod hyn ac yn edrych ar yr ecosystemau mewn modd ystyrlon er mwyn gallu rheoli ein hadnoddau naturiol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Gan adeiladu ar yr ymgynghoriad '*Cymru Fyw - Fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd*' yn Hydref 2010, aethom ati i ymgynghori ar '*Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru*'. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 31 Ionawr 2012 a 31 Mai 2012, ac mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad *Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw'* wedi'i gyhoeddi.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl ar ystod eang o gynigion, gan gynnwys yn benodol:

- Pa newidiadau i bolisïau a systemau cyfredol allai fod eu hangen er mwyn gweithredu dull o reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol ar sail y dull ecosystemau?
- Pa gyfleoedd a sut fath o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer rhesymoli neu symleiddio sut rydym yn rheoli a rheoleiddio'r amgylchedd ac adnoddau naturiol?
- A allai datblygu arfau marchnad newydd roi'r cyfle i ni wella'r ffordd rydym yn rheoli adnoddau naturiol?
- Datblygu sut y cynllunnir y ffordd y rheolir adnoddau naturiol ar lefel leol a chenedlaethol i ddarparu fframwaith strategol newydd ar gyfer penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol;
- Paratoi Bil yr Amgylchedd Cymru, a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2014/15, wedi'i lywio gan yr ymatebion i'r cynigion yn y papur.

## Y Fenter Trefi Taclus

Menter rhwng Cadwch Gymru'n Daclus ac awdurdodau lleol Cymru yw Trefi Taclus, ac mae'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi pobl i wneud eu cymunedau'n lân, yn ddiogel ac yn fannau brafiach i fyw ynddynt, gan alluogi pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd lleol. Mae'n gwella ymwybyddiaeth pobl o effaith sbwriel a gwastraff ar ddiogelwch a lles eu cymunedau, ac mae'r defnydd o wirfoddolwyr gwyrdd yn hwb i ddealltwriaeth ac ymgysylltu ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach.

Derbyniodd ystod eang o brosiectau gyllid drwy'r cynllun hwn yn 2011-2012, gan gynnwys sesiynau casglu sbwriel a thwtio, cynnal a chadw llwybrau, creu ac adfywio rhandiroedd a gerddi cymunedol, rheoli cynefinoedd a phrosiectau i amddiffyn rhywogaethau sydd mewn perygl. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cyflawni'r elfen ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru ac yn galluogi pobl Cymru i gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd lleol. Cynhaliwyd 88 o brosiectau a oedd â'r nod o amddiffyn rhywogaethau penodol a warchodir. Mae tua 1,600 o brosiectau wedi'u cwblhau i wella cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth ledled Cymru, gan gynnwys cael gwared ar Glymog Japan, Jac y Neidiwr a'r rhododendron. Mae dros 11,800 o sesiynau casglu sbwriel a thwtio wedi'u cynnal ledled Cymru, gan arwain at bron i 2,000 o dunelli o wastraff yn cael eu symud o dirwedd Cymru. Mae dros 11,500 o wirfoddolwyr wedi elwa ar hyfforddiant a gynigir gan brosiectau Trefi Taclus, a bu'n fodd iddynt wella'u sgiliau.

Dechreuodd y fenter Trefi Taclus ym mis Ebrill 2008 ac mae'n parhau i gyllido prosiectau cymunedol ac awdurdodau lleol yn 2012-13. Bydd prosiectau'r cynllun Trefi Taclus yn y dyfodol yn rhoi mwy o bwyslais ar wella cymunedau trefol mewn ardaloedd difreintiedig yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

## Ansawdd Aer

Mae gan ansawdd aer y potensial o hyd i effeithio ar iechyd ac ar yr amgylchedd mewn rhannau o Gymru, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i geisio sicrhau gwelliannau mewn ansawdd aer. Rydym yn gweithredu yn yr hirdymor er budd pobl ac amgylchedd Cymru.

Cyhoeddwyd *Air Quality Pollutant Inventories for England, Scotland, Wales and Northern Ireland – 1990 to 2010* ar 13 Medi 2011. Mae canfyddiadau allweddol yn yr adroddiad yn dangos sut mae ansawdd aer yn well bellach nag ar unrhyw adeg ers y chwyldro diwydiannol. Mae allyriadau cyffredinol y saith llygrydd sy'n cael blaenoriaeth wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno'r rhestr llygredd aer ym 1990. Yn benodol:

- Carbon monocsid – gostyngiad o 72%.
- Cyfansoddion organig ffrwydrol nad ydynt yn fethan – gostyngiad o 69%.
- Ocsidau nitrogen yr adroddwyd yn nitrogen deuocsid – gostyngiad o 54%.
- Sylffwr deuocsid – gostyngiad o 82%
- Amonia – gostyngiad o 16%.
- Deunydd gronynnol dan 10 micron ($PM_{10}$) – gostyngiad o 54%.

- Plwm – gostyngiad o 90%.

Byddwn yn parhau i weithio gyda diwydiant, awdurdodau lleol ac adrannau eraill yn y llywodraeth i helpu i sicrhau bod ansawdd aer yng Nghymru yn parhau i wella.

***Cymdeithas Rhandiroedd Fochriw, Caerffili***

Pentref bach ac anghysbell yw Fochriw ar flaen Cwm Darran ar ymyl gogledd-orllewinol Cwm Rhymni. Mae'n bentref glofaol nodweddiadol yn y De ac mae gwaddol ei orffennol diwydiannol a'i leoliad anghysbell yn cyfrannu'n allweddol at y lefel ddifrifol o amddifadedd yno heddiw. Mae tipio anghyfreithlon ac ymddygiad o ollwng sbwriel yn broblem ac yn arwydd o'r amddifadedd cymdeithasol.

Mae safle rhandiroedd Fochriw yn 3.5 erw ac yn gyfle i drigolion lleol gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden tra'n helpu i wella ansawdd eu hamgylchedd lleol.

Mae cyllid gwerth £25,477.50 gan Trefi Taclus a ddarparwyd drwy Gangen Ansawdd Amgylcheddol Lleol Llywodraeth Cymru wedi galluogi Groundworks Caerffili a grwpiau lleol eraill i wneud pob math o waith ar ran cymdeithas y rhandiroedd. Mae'r gwaith hwn wedi:

- cynyddu capasiti'r rhandir drwy ddarparu 10 plot rhandir maint safonol pellach
- datblygu cyfleusterau cymunol y rhandir
- Gosod dros 300 metr o lwybrau hygyrch
- Gosod ramp anabl gyda rheiliau llaw a gwelyau wedi'u codi er mwyn i ddefnyddwyr anabl allu garddio'n haws.
- Ailwampio pwll sydd yno'n barod i wella bioamrywiaeth
- Gosod prif glwydi newydd ym mlaen a chefn y safle er mwyn rhoi diogelwch ychwanegol
- Darparu llecyn caled ar gyfer man dosbarthu
- Cyllido tridiau o weithredu ar gyfer trigolion lleol a grwpiau lleol sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni i weddnewid tir diffaith yn ardaloedd ar gyfer tyfu, gan ddarparu addysg berthnasol ar dyfu cynnyrch mewn rhandiroedd iddynt a darparu hyfforddiant mewn gwaith saer ac adeiladu.
- Gwell cydlyniant cymunedol.

Cymdeithas Rhandiroedd Fochriw sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r safle hwn a sicrhau bod y gwelliannau hyn yn arwain at fanteision i gymuned Fochriw am flynyddoedd lawer.

**Dangosyddion**

**Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy:** % y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodir fel rhai sefydlog neu sydd ar gynnydd

**Cynnydd:** Mae cyfanswm y rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghymru wedi cynyddu 21 y cant ers 2002, i 195 yn 2008. O'r rhywogaethau â blaenoriaeth yr oedd digon o wybodaeth ar gael amdanynt, roedd 52 y cant yn cael eu hystyried yn sefydlog neu ar gynnydd yn 2008, o'i gymharu â 40 y cant yn 2002. O'r rhywogaethau â blaenoriaeth yr oedd digon o wybodaeth ar gael amdanynt, roedd

canran y rhywogaethau yr ystyriwyd eu bod wedi'u colli neu'n dirywio wedi gostwng ers 2002.

- **Cadwraeth Bioamrywiaeth**

Cafwyd peth gostyngiad yng nghyfanswm y cynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru i 38 yn 2008. O'r cynefinoedd â blaenoriaeth yr oedd digon o wybodaeth ar gael amdanynt, cafwyd peth cynnydd yng nghanran y cynefinoedd sy'n cael eu hystyried yn sefydlog neu ar gynnydd i 39 y cant yn 2008. O'r cynefinoedd â blaenoriaeth yr oedd digon o wybodaeth ar gael amdanynt, cynyddodd canran y cynefinoedd sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n dirywio o 57 y cant yn 2002 i 62 y cant yn 2005. Fodd bynnag, mae wedi gostwng ers hynny i 53 y cant yn 2008.

- **Effeithiau Ecolegol Llygredd Aer**

Ni fu llawer o newid yng nghanran y cynefinoedd sensitif yng Nghymru a oedd yn rhagori ar lwyth critigol dyddodion asid rhwng 1998-2000 a 2004-06. Fodd bynnag, yn 2006-08, bu cwymp o 2 bwynt canran. Mae canran y cynefinoedd sensitif yng Nghymru lle'r oedd llygryddion ewtroffig yn rhagori ar lwythi critigol o nitrogen maethol wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2001-03.

- **Ansawdd Aer Gwledig**

Mae nifer y dyddiau lle mae llygredd aer wedi bod yn gymedrol neu'n waeth na'r Safonau Ansawdd Aer Cenedlaethol wedi amrywio bob blwyddyn yn ôl lleoliad. Ar gyfartaledd, yn y ddau safle gwledig yng Nghymru, gwelwyd y nifer isaf a gofnodwyd erioed o ddyddiau lle'r oedd llygredd yr aer yn gymedrol neu'n uwch na'r cyfartaledd yn 2010 - sef 15 diwrnod. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 28 diwrnod yn 2011, sy'n parhau yn isel o gymharu â thueddiadau diweddar.

- **Ansawdd Afonydd**

Mae canran y rhannau o afonydd yng Nghymru sydd ag ansawdd cemegol da wedi bod dros 90 y cant yn gyson ers 1994, ac mae wedi aros ar oddeutu 95 y cant dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae canran y rhannau o afonydd yng Nghymru sydd ag ansawdd biolegol da wedi codi'n raddol er 2000, gan gyrraedd uchafbwynt o 88 y cant yn 2008, cyn gostwng dros y ddwy flynedd nesaf.

- **Ansawdd Priddoedd**

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn asesu'r tunelli o garbon yr hectar yn y -0-15cm uchaf o bridd yng nghynefinoedd cyffredin Cymru. Dangosodd y canlyniadau fod y stoc garbon gymedrol mewn pridd yn 2007 uchaf dan gynefin rhostir corlwyni, ac isaf mewn priddoedd âr.

- **Rheoli Adnoddau Dŵr yn Gynaliadwy**

Roedd canran y parthau adnoddau yng Nghymru gyda diffygion byffer targed wedi amrywio er 2001-02, ond roedd wedi gwella i'w lefel isaf sef 8 y cant yn 2009-10.Ceir

diffygion byffer targed pan fydd faint yn union o gyflenwad dŵr sydd ar gael yn llai na faint y rhagwelir y bydd galw amdano, a’r “byffer targed” ychwanegol.

## Pennod 4 Economi Gynaliadwy

Economi gynaliadwy a chryf i Gymru sy'n gallu datblygu wrth sefydlogi ei defnydd o adnoddau naturiol cyn ei leihau, ac wrth leihau ei chyfraniad at newid yn yr hinsawdd. Y nod yw creu economi gref yn seiliedig ar gyflogaeth lawn a swyddi o safon uchel. Mae unigolion, busnesau a chymunedau yng Nghymru yn wynebu anawsterau sylweddol yn sgil y dirywiad diweddar yn yr economi. Helpu busnesau hyfyw yng Nghymru i barhau i fasnachu yn ystod y dirywiad yn yr economi a rhoi cymorth iddynt fod yn fwy cystadleuol a manteisio ar y cyfleoedd wrth i'r economi wella yw'r her gyntaf i Lywodraeth Cymru.

### EIN CAMAU GWEITHREDU

Mae'r adrannau canlynol yn amlygu meysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud tuag at ein gweledigaeth o economi gynaliadwy.

### Caffael cyhoeddus (Gwerth Cymru)

Mae'r polisi caffael wedi canolbwyntio ar weithio gyda'r sector cyhoeddus ehangach i ddarparu rhaglen ar gyfer ymrwymiadau'r Llywodraeth i wella mynediad sefydliadau llai fel BBaChau a sefydliadau Trydydd Sector i gontractau sector cyhoeddus a sicrhau bod Cymru yn cael y canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau posibl o'i gweithgareddau caffael.

Mae'r polisi Manteision Cymunedol yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ac mae Gwerth Cymru yn ymwybodol bellach o bron i 80 o brosiectau gwerth dros £4 biliwn. Datblygwyd offeryn ar sail yr Effaith Lluosydd Lleol (er budd yr economi leol) ac mae wedi'i ddefnyddio gyda 13 o'r prosiectau hyd yma, gyda'r canlyniadau'n awgrymu bod 78% o'r busnes yn cael ei ennill gan BBaChau Cymru, gyda 211 o bobl ddifreintiedig yn cael eu helpu i waith a 10,800 o wythnosau hyfforddi'n cael eu cynnig.

Mae mentrau i wella hygyrchedd i gyfleoedd sector cyhoeddus fel symleiddio prosesau cyn-cymhwyso a hysbysebu contractau'n fwy amlwg, wedi helpu i sicrhau bod cyflenwyr yng Nghymru yn ennill tua 52% o fusnes y sector cyhoeddus ar hyn o bryd, cynnydd o 35% ers 2003.

Mae'r rhaglen cyfnewidcymru wedi helpu'r sector cyhoeddus i awtomeiddio prosesau a sicrhau bod pobl yn defnyddio llai o garbon a phapur, gyda thrafodion yn 2011/12 yn arbed bron i 7 miliwn dalen o bapur a 45 tunnell o garbon.

Mae holl raglenni Gwerth Cymru yn darparu hyfforddiant a chymorth i'r sector cyhoeddus ehangach a, thrwy brosiect a gyllidwyd gan Ewrop, mae 22 o hyfforddeion wedi'u recriwtio ar raglen 3 blynedd. Maent yn derbyn hyfforddiant proffesiynol sy'n cynnwys ymarfer caffael cynaliadwy, ac yn cael eu secondio i'r sector cyhoeddus lle gallant ledaenu eu harferion da.

### TGCh a Datblygu Band Eang

Mae angen seilwaith modern a chynaliadwy ar Gymru a fydd yn sail i dwf economaidd cynaliadwy a lles ein pobl. Mae angen i'n pobl, ein busnesau a'n cymunedau fod â chysylltiadau da o fewn a thu hwnt i Gymru a chael mynediad i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau iawn yn yr ardaloedd lle maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae grŵp cynghori annibynnol wedi'i sefydlu sy'n ystyried ac yn adrodd ar rôl bosibl dinas-ranbarthau mewn gweithgareddau datblygu economaidd cynaliadwy yn y dyfodol yng Nghymru.

Yn Hydref 2011, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes. Bydd eu hadroddiad 'Cymell Twf' yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2012. Fel rhan o'u cylch gorchwyl, gofynnwyd i'r Grŵp ystyried y cymorth sydd ar gael i fusnesau ynni adnewyddadwy.

**Parc Rhanbarthol y Cymoedd**

Mae Rhaglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn defnyddio'r amgylchedd naturiol a threftadaeth y Cymoedd i sbarduno adfywio economaidd a chymdeithasol drwy gydweithio ar draws ffiniau ac ar draws sectorau ac mae'n cynnwys dros 40 o sefydliadau.

Gweithgareddau yn 2011-2012:

- Paratoi Fframwaith Cyflenwi drafft Parc Rhanbarthol y Cymoedd mewn ymgynghoriad â phartneriaid, sy'n mabwysiadu dull ecosystemau o sicrhau datblygu cynaliadwy.
- Creu 71km o lwybr beicio oddi ar y ffordd yn y Cymoedd i annog symudedd gynaliadwy a hygyrchedd, a lleihau anghydraddoldeb iechyd.
- Mae 9 parc gwledig ychwanegol wedi ennill statws y Faner Werdd sy'n adlewyrchu eu dull cynaliadwy o reoli a chyflawni sawl agenda.
- Mae 150 o lysgenhadon cymunedol lleol wedi cyflawni cymwysterau NVQ mewn twristiaeth.
- Datblygu cyfleoedd i sicrhau buddsoddiad sector preifat ar gyfer cyfleusterau amgylcheddol a gweithgareddau drwy'r prosiect WECAN.

Er mwyn sicrhau cyllid gan y rhaglen, mae'n rhaid i bob prosiect a gyllidir gwblhau offeryn integreiddio datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru a dilyn y dull hwn tan y diwedd. Mae hyn yn cynnwys bod â chynllun rheoli gwastraff ymhob safle a bod o leiaf 10% o'r deunydd adeiladu a ddefnyddir yn dod o ffynonellau wedi'u hailgylchu.

Mae'r rhaglen bellach yn gweithio tuag at gyhoeddi fframwaith cyflawni sydd wedi'i ddiweddaru sy'n mabwysiadu dull ecosystemau ac sy'n darparu llwyfan ar gyfer cynllunio integredig a chynnal gweithgareddau amgylcheddol, treftadaeth a thwristiaeth ledled y Cymoedd.

Bydd y gweithgareddau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer ardaloedd, gan gynnwys canlyniadau economaidd, bioamrywiaeth, iechyd, symudedd, hygyrchedd ac addysg.

**Adfywio**

Rydym yn cefnogi cyfres integredig o weithgareddau i atal dirywiad economaidd, cymdeithasol a ffisegol er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus mewn ardaloedd lle na fydd grymoedd y farchnad yn unig yn gallu cyflawni hyn. Defnyddir ein canllawiau mewnol *Creu Lleoedd Cynaliadwy Gyda'n Gilydd* fel arweinlyfr i ddatblygu cynaliadwy, i gefnogi datblygiad polisïau, gweithgareddau, prosiectau a rhaglenni cynaliadwy ar gyfer ein holl waith. Mae'n helpu ac yn llywio pob rheolwr o fewn yr isadran i brif ffrydio datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol.

Mae *Creu Lleoedd Cynaliadwy Gyda'n Gilydd* yn cefnogi'r dull integredig o gynllunio a gweithredu prosiectau y mae adfywio yn eu hwyluso drwy ei waith gydag ystod eang o sectorau o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru. Yn ystod 2011/12, mae'r Tîm Adfywio wedi diweddaru ei weithdrefnau dyfarnu grantiau i adlewyrchu hyn. Datblygwyd polisïau a fframweithiau adfywio i adlewyrchu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol a chynnig llwyfan ar gyfer cynllunio a darpariaeth integredig drwy weithio ar draws y llywodraeth a phartneriaethau rhanddeiliaid rhanbarthol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o ddisgyblaethau technegol, a fydd yn darparu canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar fframwaith adfywio newydd ar gyfer Cymru i gefnogi ein gweledigaeth y dylai pawb yng Nghymru weithio mewn cymuned fywiog, hyfyw a chynaliadwy gydag economi leol gadarn.

**Ymchwil, Datblygu, Arloesedd a Gwyddoniaeth**

Mae ymchwil a datblygu yn gwneud cyfraniad pwysig at sbarduno arloesedd ac mae arloesedd yn un o'r ffactorau allweddol sy'n gyrru twf economaidd a lles hirdymor. Mae'n rhaid i Gymru symud tuag at economi ymchwil a datblygu mwy dwys sy'n canolbwyntio ar wybodaeth lle ceir yr amodau iawn i arloesedd ffynnu. Rydym yn rhoi pwyslais penodol ar gynyddu'r cydweithio ym meysydd ymchwil a datblygu gyda'r byd academaidd, gan arwain at arloesedd a masnacheiddio, ac yn gweithio'n agos gyda swyddfa'r Prif Swyddog Gwyddonol.

Mae Strategaeth Arloesi Cymru yn cael ei datblygu oherwydd mae'n hollbwysig bod sefydliadau yng Nghymru yn buddsoddi yn y canlynol ac yn derbyn cymorth i wneud hynny:

- Cynnal Gwaith Ymchwil a Datblygu.
- Mabwysiadu technolegau newydd.
- Datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd.
- Diogelu a masnacheiddio eiddo deallusol.
- Defnyddio modelau busnes arloesol.

**Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n rheoli'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Bydd dwy thema drawsbynciol yn Rhaglen Gydgyfeirio 2007-2013 – cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal – yn helpu i gefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Nod WEFO yw gwella ansawdd a gwaddol pob prosiect ac ychwanegu gwerth at yr Undeb Ewropeaidd yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn cefnogi ystod eang o brosiectau sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Prosiect ar y cyd rhwng Colegau Addysg Bellach De Cymru yw Sgiliau ar gyfer Diwydiant sy'n cael ei arwain gan Goleg Gŵyr Abertawe. Ei nod yw defnyddio dull 'seiliedig ar sector' o ddarparu hyfforddiant galwedigaethol a generig, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol ym maes datblygu cynaliadwy.

Prosiect ymchwil ar y cyd rhwng y sector preifat a'r byd academaidd yw Delta Stream.

- Mae'n ceisio sicrhau bod arloesedd, sy'n deillio o ddatblygu dyfais cynhyrchu llanw yn ystod cyfnod un, yn cael ei ymchwilio a'i ddeall yn iawn a'i gymhwyso'n iawn i'r dechnoleg.
- Dan arweiniad Tidal Energy Ltd, mae prototeip llawn yn cael ei gynllunio a'i adeiladu, a bydd yn cael ei osod yn Swnt Dewi, Sir Benfro.
- Ar ôl ei osod, bydd y ddyfais ar waith am flwyddyn ac yn darparu ynni adnewyddadwy i'r gymuned leol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd SBED (Sustainable Building Envelope Demonstration), dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, yn cynllunio, modelu, profi, prototeipio a monitro systemau adeiladu carbon isel.

- Bydd yn defnyddio technolegau solar, thermol a ffotofoltaidd (pob un ar wahân a gyda'i gilydd) ar ystod o adeiladau sy'n cael eu defnyddio gan y sector preifat.
- Drwy arddangos y cynnyrch, ei nod yw cyflymu datblygiad ffasadau arloesol i adeiladau sy'n cynhyrchu ynni gan gynnig atebion cynllunio carbon isel.
- Gallai hyn weddnewid rôl yr amlen adeiladu o fod yn un o arbed ynni yn oddefol i fod yn un o gynhyrchu, storio, dosbarthu a rheoli yn ddeallus, gan sicrhau y perfformiad gorau posibl.

Mae WEFO wedi rhoi llawer o ymdrech ac adnoddau i gefnogi noddwyr y prosiectau fel y gallant fynd ati go iawn ac mewn modd ymarferol er mwyn gwella'r sefyllfa amgylcheddol, ymarferol ac o ran cydraddoldeb ar lawr gwlad. Mae llawer o brosiectau wedi datblygu offeryn i wella perfformiad amgylcheddol, cydraddoldeb ac economaidd sefydliadau a mentrau a gefnogir yn y pen draw. Mae'r rhain yn cynnwys: prosiect SEREN Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, prosiect Cymunedau 2.0 a phrosiect ASTUTE Prifysgol Abertawe.

Nod Prosiect Adfywio Ffisegol Pontypridd yw cynnal rhaglen fuddsoddi integredig i wella amodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol canol y dref, gan gynnwys gwelliannau i fannau cyhoeddus, seilwaith a mynediad. Fel yn achos prosiectau tebyg yn Nhrecelyn, Aberdâr, Bargoed Glynrhedynog, Caerdydd a threfi porthladd yn Sir Benfro, mae noddwyr y prosiect wedi gwneud eu gorau glas i integreiddio cyfle cyfartal, yn enwedig drwy ymgysylltu â grwpiau cymunedol a mynediad lleol.

**Y Siarter Datblygu Cynaliadwy**

Y Siarter yw ein prif ddull o ddarbwyllo sefydliadau o bob sector ledled Cymru i gofleidio arferion mwy cynaliadwy. Mae’r Siarter Datblygu Cynaliadwy yn herio sefydliadau i nodi a rhannu eu harferion gorau ar ddatblygu cynaliadwy gyda sefydliadau eraill, ac rydym yn gobeithio datblygu cymuned ymarfer arloesol yng Nghymru. Bydd hyn yn cyfrannu’n sylweddol at weithredu’r cynigion yn y Bil Datblygu Cynaliadwy.

Bydd y sawl sy’n llofnodi’r Siarter yn gosod her flynyddol i’w hunain gan bennu’r hyn y byddant yn ei wneud yn wahanol yn sgil sefydlu datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Gofynnir iddynt adrodd ar ddiwedd blwyddyn gan roi tystiolaeth o’r newid a fu yn sgil y Siarter, gan werthuso ei ddilysrwydd parhaus.

Mae’r rhwydwaith wedi tyfu’n raddol ers ei lansio yn 2010. Ar hyn o bryd, mae dros 130 wedi’i lofnodi, yn amrywio o gyrff sector cyhoeddus a thrydydd sector, i gwmnïau mawr byd-eang, BBaChau a chwmnïau bach o’r sector preifat. Mae’r Siarter yn cael ei dyfu’n raddol er mwyn sicrhau y gall ddatblygu’n effeithiol ac y gellir cefnogi ei aelodau’n briodol.

Eleni, rydym yn gweithio gyda llofnodwyr y Siarter i ddatblygu mecanweithiau cynnal y rhwydwaith, er mwyn galluogi aelodau i rannu arbenigedd a chydweithio’n fwy effeithlon. Dylai hyn ein helpu i ehangu’r Siarter yn sylweddol. Cefnogir y gwaith hwn gan gontract cyflawni gyda Cynnal Cymru.

Drwy lofnodi’r Siarter, mae sefydliadau’n cyfrannu’n sylweddol at helpu i adeiladu economi gynaliadwy a chryf ac yn meithrin economïau a chyflenwyr lleol, yn cefnogi arloesedd, yn helpu gyda’r pontio i economi carbon isel, gwastraff isel, ac yn sicrhau mai Cymru yw’r lle gorau i fusnesau adleoli, gychwyn, tyfu a ffynnu.

Mae hyn yn cyfrannu’n uniongyrchol at y targed lleihau allyriadau a nodir yn y Strategaeth Newid Hinsawdd, ac mae ei fabwysiadu yn cyfrannu at les cymunedau yn yr hirdymor.

**Sgiliau Carbon Isel**

Mae Peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector yn darparu hyfforddiant ar gyfer diwydiannau carbon isel newydd. Gan weithio gyda’r Cynghorau Sgiliau Sector a chyda chefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer busnesau, gan roi sylw i bob dim o roi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith mewn eiddo i gynnal a chadw tyrbinau gwynt.

Pan ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2012, roedd y Prosiect wedi cynorthwyo 700 o gyfranogwyr a 200 o fusnesau ar draws ystod o ddisgyblaethau, gan gynnwys:
- sefydlu Fframwaith Prentisiaethau newydd ar gyfer gweithredu a chynnal a chdw tyrbinau gwynt;
- darparu cymwysterau galwedigaethol newydd ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hynny sy’n darparu gwasanaethau cyngor cyn gosod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo;

- darparu hyfforddiant ar inswleiddio waliau solet sy'n gysylltiedig â'i ddefnydd ehangach fel mesur effeithlonrwydd ynni o dan y Raglen Arbed a chynlluniau tebyg;
- cefnogi'r gwaith o  sefydlu cyfres newydd o hyfforddiant uwchsgilio ar gyfer y gweithlu adeiladu sy'n cynnwys rhoi sylw i ba mor briodol a sensitif yw unrhyw waith sy'n gysylltiedig ag ôl-ffitio eiddo a adeiladwyd cyn 1919;
- Lansio llwybr hyfforddiant newydd fel rhan o'r Rhaglen Llwybrau i Brentisiaethau sydd â'r nod o ddarparu llwybrau datblygu i bobl ifanc i'r farchnad inswleiddio waliau solet newydd.

Bydd ein buddsoddiad mewn sgiliau yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr hyfforddiant iawn ar gael i'n helpu i bontio i Gymru carbon isel. Byddwn yn cysoni rhaglenni, e.e. Sgiliau Twf Cymru a Twf Swyddi Cymru, i gefnogi'r cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chreu swyddi fel rhan o'r economi werdd newydd.

**DANGOSYDDION**

**Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy:** Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) a GYC y pen

**Cynnydd:** Mae GYC a GYC y pen yng Nghymru wedi codi'n gyson rhwng 1997 a 2008, cyn disgyn yn 2009 a chynyddu eto yn 2010. Mae GYC Cymru y pen fel cyfran o GYC y DU y pen wedi disgyn o 78 y cant ym 1997 i 74 y cant yn 2010.

- **Cyflogaeth**

Mae canran yr holl bobl sydd rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru sydd mewn gwaith wedi cynyddu rhwng 1992 a 2011. Fodd bynnag, gwelwyd y gyfradd yn gostwng rhwng 2009 a 2011 ac yn cynyddu rhywfaint yn 2011. Cynyddodd canran yr holl ddynion a menywod rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith rhwng 1992 a 2011; er bod cynnydd y ganran o fenywod rhwng 16 a 64 oed a oedd yn gweithio yn llawer uwch na chanran y dynion. Mae'r gwahaniaeth rhwng canran y dynion o gymharu â chanran y menywod rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith wedi gostwng o 13 pwynt canran ym 1992 i 8 pwynt canran yn 2011.

- **Effeithlonrwydd Adnoddau**

Mae cymhareb allyriadau carbon deuocsid i GYC yng Nghymru wedi disgyn 12 y cant rhwng 2005 a 2007.

- **Trydan o Adnoddau Adnewyddadwy**

Mae canran y trydan a gynhyrchir yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy wedi mwy na dyblu er 2002, gan gyrraedd 5.1 y cant yn 2010. Mae'r cynnydd hwn wedi'i sbarduno gan gynnydd yng nghyfran ynni'r tonau, gwynt a haul a ddefnyddir.

**Pennod 5 Cymdeithas Gynaliadwy**

Mae cymdeithas gref, iach, gynhwysol a chyfiawn, sy'n byw o fewn terfynau amgylcheddol, yn allweddol i ddatblygu cynaliadwy. Mae tai sydd mewn cyflwr da i bawb yn hanfodol. Mae addysg aneffeithiol yn cyfyngu ar botensial cyfoethog ein poblogaeth, ac mae parhau i gryfhau ein system addysg yn flaenoriaeth. Ymrwymiad gwirioneddol i roi addysg dda i bawb – dyna yw sail cymuned gref, ffyniannus ac uchelgeisiol. Rydym am ysgogi ac addysgu pobl i ddatblygu eu gwybodaeth, eu gwerthoedd a'u sgiliau fel y gallant gyfrannu at y penderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt, a byw'n fwy cynaliadwy.

**EIN CAMAU GWEITHREDU**

Mae'r adrannau canlynol yn amlygu meysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud tuag at ein gweledigaeth o gymdeithas gynaliadwy.

**Y Cyfnod Sylfaen/Cwricwlwm Ysgolion**

Mae'r cwricwlwm ysgolion ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ym mis Medi 2008 yn ceisio:

- bod yn berthnasol i'r 21ain ganrif
- cefnogi polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF).

Mae'r Datblygu Cynaliadwy wedi'i gynnwys yng nghwricwlwm ysgolion Cymru ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed drwy ADCDF.

Mae ADCDF yn elfen greiddiol o Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gymryd rhan mewn profiadau amrywiol ar draws y meysydd dysgu, gan gynnwys gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut gallant ddiogelu'r amgylchedd a bod yn ecogyfeillgar o ddydd i ddydd.

Mae hyn yn gyfle i ddatblygu'r gwerthoedd a'r agweddau, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i'w paratoi ar gyfer bywyd fel dinasyddion byd-eang yn y 21ain ganrif. Nodir y cyfleoedd hyn mewn pynciau amrywiol ac mae Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn benodol yn un o themâu'r fframwaith ABCh ar gyfer disgyblion 7 i 19 oed yng Nghymru.

**Addysg uwch**

Cynnydd datblygu cynaliadwy yn y sector AU a chan y sector AU yng Nghymru. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), drwy gyllido a rheoli'r sector AU, yn parhau i sicrhau bod sefydliadau'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i symud datblygu cynaliadwy ymlaen.

Mae sefydliadau AU yn parhau i ddatblygu a rhannu arferion gorau drwy Grŵp ADCDF yr Academi Addysg Uwch. Mae hyn yn gysylltiedig â'r gwaith parhaus a

wneir gan Brifysgol Casnewydd a Phrifysgol Abertawe ar Ganolfan Arbenigedd Ranbarthol y Cenhedloedd Unedig. Mae dau ddarn pwysig o waith wedi'u cwblhau mewn perthynas ag ADCDF:

1. Datblygu Dealltwriaeth Gyffredin o ADCDF – sy'n cyflwyno cipolwg ar y sefyllfa sydd ohoni yn y sector AU yng Nghymru.
2. Datblygu Offeryn Llinell Sylfaen ar Gynaliadwyedd – sy'n ffordd rifol o fesur perfformiad a chynnydd cyfredol i gynnwys ADCDF yn y sector AU.

Bydd CCAUC yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Grŵp ADCDF AAU, Yr Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru a Chymdeithas Amgylcheddol y Prifysgolion a'r Colegau i gynnwys a darparu gwell cynaliadwyedd o fewn y sector AU. Bydd CCAUC yn sicrhau bod cynaliadwyedd a lles yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn ein strategaeth gorfforaethol newydd ac mae'n datblygu metrigau gyda'r grŵp ADCDF er mwyn i ni allu mesur cynnydd yn well.

**Rhaglen Addysg Ryngwladol**

Prif nod y Rhaglen Addysg Ryngwladol yw cynorthwyo dysgwyr i ddeall materion datblygu cynaliadwy, a'u cynorthwyo i fyfyrio ar eu lle yn y byd a'u heffaith arno. Maent hefyd yn ceisio dysgu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sy'n angenrheidiol i gyfrannu at benderfyniadau am wella'u lles a lles eu cymunedau, gan hyrwyddo byd tecach, mwy cynaliadwy.

Mae'r meysydd y canolbwyntir arnynt yn cynnwys diwygio'r cwricwla/systemau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau addysg a lefelau cyrhaeddiad a phartneriaethau cynhyrchiol a hirhoedlog. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r agenda ADCDF i ddatblygu pobl ifanc a'r Iaith Gymraeg.

Mae British Council (BC), CILT ac Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost wedi cytuno ar grantiau pellach ar gyfer 2012/2013 a bydd y gwaith yn parhau i ymgysylltu fwyfwy ag ieuenctid a'u cymell ym maes ADCDF drwy gynnig gweithdai, cyfarfodydd rhwydwaith/consortiwm, cysylltu ystafelloedd dosbarth a Rhaglenni Partneriaethau Ysgolion Byd-eang, ymweliadau hirdymor a Chyfnewid.

**Byrddau Gwasanaethau Lleol**

Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio cymunedol, drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol, wedi parhau i yrru'r agenda datblygu cynaliadwy yn ei blaen, gan fynd i'r afael ag anghenion ein pobl mwyaf agored i niwed a'n cymunedau mwyaf difreintiedig gan ganolbwyntio'n benodol ar integreiddio, cydweithio, atal a thegwch. Ffurfiolwyd hyn i raddau mwy helaeth yn ystod 2012 yn sgil cyhoeddi canllawiau ar gynllunio integredig, *Cydamcanu – Cydymdrechu*, gan adeiladu ar arferion gorau a oedd eisoes i'w gweld mewn nifer o ardaloedd lleol.

Bydd pob ardal leol â chynllun integredig sengl ar waith erbyn mis Ebrill 2013 a fydd yn dangos sut bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau. Mae gan lawer o ardaloedd – Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys a Bro Morgannwg – gynlluniau sydd eisoes ar waith. Mae'r rhain yn integreiddio'u cynlluniau statudol ar gyfer plant a phobl ifanc, iechyd, gofal cymdeithasol a lles,

diogelwch cymunedol a'r strategaeth gymunedol, yn ogystal â chanlyniadau amgylcheddol ac economaidd lleol. Fel dulliau cynllunio strategol, maent yn cwmpasu'r ystod lawn o ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer ardal. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar gryfhau'r fframwaith statudol ymhellach ar gyfer cynlluniau integredig sengl er mwyn sicrhau mai nhw fydd y prif gyfrwng ar gyfer dangos fod penderfyniadau partneriaid lleol ar flaenoriaethau ac atebion yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy o integreiddio a chydweithio.

Mae gennym brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop gwerth £17 miliwn sydd wedi'i chymeradwyo gan WEFO i ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol a sicrhau prosiectau â blaenoriaeth. Un o'r 5 thema gyffredinol sy'n gyffredin drwy'r rhain yw datblygu cynaliadwy. Nod hyn yw darparu gallu arwain cyfunol a'r gallu i gronni arbenigedd yn lleol, gan gysylltu hyn ag arweinyddiaeth a gallu cenedlaethol, yn ogystal ag ystyried y gwaith o dan gynlluniau integredig sengl a'u cysylltu â'r cynlluniau hyn.

Yn y dyfodol, bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau rhwydweithio, a hyrwyddir gan swyddogion datblygu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, a fydd yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, ac yn targedu'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr ar gynaliadwyedd gan ddarparu hyfforddiant priodol iddynt.

**Teithio Cynaliadwy**

Byddwn yn mynd ati i ddatblygu cyfres o Drefi Teithio Cynaliadwy ym mhob rhanbarth. Er mwyn gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen, byddwn yn gyntaf yn datblygu cynllun braenaru mewn ardal drefol fawr. Yna, byddwn yn nodi a datblygu cyfres o drefi sydd wedi'u cysylltu ag aneddiadau allweddol eraill a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru.

Nid oes modd cael un ateb a fydd yn addas i bawb ym maes teithio cynaliadwy. Mae'n ymwneud â deall anghenion yr ardal leol a darparu pecyn o fesurau i ddarparu opsiynau teithio amgen drwy gerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd car cynaliadwy. Mae angen newid ymddygiad a brandio effeithiol i gyd-fynd â'r mesurau hyn os ydynt i lwyddo.

Caerdydd oedd y fenter gyntaf, gyda chynlluniau eraill ym Môn a Menai, Aberystwyth, Hwlffordd a Chaerfyrddin. Yn ystod y flwyddyn, sicrhaodd y rhaglen fesurau blaenoriaeth bysys pellach a chynlluniau gwella beicio a chynllun gwell gwybodaeth i deithwyr.

Bydd y grant yn parhau yn 2012-13 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn llywio rhaglenni yn y dyfodol ac yn pennu sut gall Canolfannau Teithio Cynaliadwy gyfrannu at y Bil Teithio Llesol.

**Cymunedau yn Gyntaf**

Ar ôl ymgynghori eang, ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y byddai'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei hail-lansio ym mis Ebrill 2012 fel Rhaglen Trechu Tlodi sy'n Canolbwyntio ar

Gymunedau gyda thri chanlyniad strategol, sef Cymunedau Iach, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau sy'n Ffynnu.

Wrth symud ymlaen, bydd llai o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mawr nag yn y gorffennol ac fe'u gelwir yn Glystyrau. Bydd yn rhaid i geisiadau llwyddiannus ddangos sut maent yn cyfrannu at drechu tlodi mewn ffordd gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar anghenion pob cymuned benodol a rhaid iddynt ddangos yn glir sut bydd pobl leol yn cyfrannu at waith y Clwstwr ac at wella canlyniadau. Mae'n rhaid i'r prosiectau arfaethedig o fewn y Clystyrau ddangos sut byddant yn cyfrannu at drechu anweithgarwch economaidd, lliniaru tlodi teuluoedd a phlant a gwella bywydau unigolion a chymunedau drwy fynd i'r afael ag effeithiau tymor byr ac achosion hirdymor tlodi.

Bydd y gostyngiad yn nifer yr ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf o gymharu â Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn galluogi i ni symleiddio swyddogaethau gweinyddol a'u datblygu mewn modd mwy ystyrlon. Bwriedir i'r Clystyrau fod yn ddigon hyblyg i ddatblygu'r strwythurau anffurfiol mwyaf addas ar gyfer yr amgylchiadau lleol. Er y bydd cefnogaeth gadarn ym mhob cymuned leol, bydd y symud i lai o ardaloedd mwy o faint yn golygu y gall rhai cymunedau rannu rhai adnoddau.

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cytuno i ymestyn y trefniadau Cymunedau yn Gyntaf cyfredol mewn ardaloedd a gyflwynodd geisiadau Clystyrau tan 31 Ionawr 2013 er mwyn sicrhau pontio trefnus i drefniadau'r rhaglen newydd. Unwaith y bydd y cyllid ar gyfer y Clystyrau newydd wedi ei gymeradwyo, disgwylir iddynt gael eu sefydlu cyn gynted â phosibl ac erbyn 31 Ionawr 2013 fan bellaf.

### Mynediad i'r Celfyddydau

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC) wedi parhau i weithredu argymhellion Adroddiad Ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol i 'Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru' (Chwefror 2011).

Drwy'r Llythyr Cylch Gwaith blynyddol, mae'r Gweinidog wedi gofyn i Gyngor y Celfyddydau annog mwy o bobl o bob cefndir i fwynhau a chymryd rhan mewn digwyddiadau neu weithgareddau celfyddydol, a hyrwyddo gwell mynediad i'r gweithgareddau hyn mewn ardaloedd lle mae gan bobl fynediad cyfyngedig ar hyn o bryd. Roedd hyn yn argymhelliad allweddol yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Mae'r camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd mewn ymateb i hyn yn cynnwys:

- prosiectau wedi'u targedu mewn partneriaeth ag asiantaethau fel Celfyddydau Anabledd Cymru, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a BVSN Cymru
- mwy o fuddsoddi mewn teithiau, gan gynnwys ymestyn y fenter lwyddiannus, 'Noson Allan'.
- gweithio i wella rhyng-gysylltedd digidol er mwyn annog rhannu rhaglenni rhithwir.
- datblygu 'Creawdwyr Ifainc', strategaeth newydd ar gyfer plant, pobl ifanc a'r celfyddydau, sy'n canolbwyntio ar roi mynediad i'r celfyddydau i blant a phobl ifanc.

Yn y flwyddyn nesaf bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i roi argymhellion Adroddiad Ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol, 'Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru' (Chwefror 2011) ar waith.

**Tai**

Mae'r Strategaeth Tai genedlaethol, "Gwella Bywydau a Chymunedau", yn ategu'r rhaglen waith eang sy'n helpu i ddiwallu anghenion tai pobl a'r strategaeth hon yw sail y Papur Gwyn ar dai a gyhoeddwyd yn 2012. Mae tair blaenoriaeth strategol, sef cynyddu nifer y cartrefi: gwella ansawdd y cartrefi sy'n bodoli'n barod, a gwella gwasanaethau tai. Mae'r tair yn berthnasol i ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig y cyntaf.

Rydym wedi cyllido rhaglen sydd wedi arwain at adeiladu 400 o gartrefi newydd drwy ddefnyddio grant tai cymdeithasol gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar lefel 4 a 5 o'r Cod Cartrefi Cynaliadwy.

Cwblhawyd nifer sylweddol o gartrefi newydd yn 2011-12 a chyhoeddwyd Adroddiad Cynnydd Interim (Adroddiad Interim y Cod Cartrefi Cynaliadwy) a oedd yn darparu adborth cychwynnol ar y ffordd roedd y prosiect yn cael ei ddatblygu ac yn amlinellu rhai o'r canfyddiadau cychwynnol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi arweiniad i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hynny a oedd wrthi'n datblygu cynlluniau ac yn rhoi cipolwg ar y materion a oedd yn codi i bawb yn y diwydiant adeiladu tai a oedd yn adeiladu i safonau cynaliadwyedd uwch. Mae'r prosiectau hefyd wedi helpu i lywio datblygiad cynigion ar gyfer safonau ynni newydd i'w cynnwys yn Rheoliadau Adeiladu Cymru.

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) wedi gyrru agenda pwerus i wella tai cymdeithasol a chefnogi adfywiad cymunedol. Yn ogystal â sicrhau bod yr holl gartrefi a ddarperir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai amwynderau modern a chyflawni safon ofynnol o effeithlonrwydd ynni mae wedi cefnogi buddion cymunedol eraill, gan gynnwys swyddi newydd a chyfleoedd hyfforddi, cefnogaeth i grwpiau lleol a gwelliannau amgylcheddol.

Mae adroddiad monitro ystadegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 15 Hydref 2012, yn dangos bod bron i dri chwarter o dai cymdeithasol bellach wedi ennill y targed effeithlonrwydd ynni o fewn y WHQS. Mae'r datganiad ar gael yn y ddolen ganlynol:
http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/housing2012/121015/?skip=1&lang=cy

**DANGOSYDDION**

**Prif Ddangosydd Datblygu Cynaliadwy:** % y boblogaeth mewn cartrefi incwm isel.

**Cynnydd:** Ni fu llawer o newid yng nghanran y boblogaeth mewn cartrefi incwm cymharol isel cyn costau tai ers 1994/97. Mae canran y boblogaeth mewn cartrefi incwm cymharol isel ar ôl costau tai wedi gostwng ers 1994/97. Fodd bynnag, mewn

blynyddoedd diweddar, mae'r ganran wedi bod ychydig yn uwch na'r lefel a welwyd yn 2003/06.

- **Anghydraddoldeb Iechyd**

Mae'r gyfradd marwolaethau babanod fesul 1,000 wedi disgyn o 4.8 yn 2009 i 4.0 yn 2010. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn wedi tueddu i godi a gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, gan eu bod yn seiliedig ar niferoedd bychan. Bu cynnydd cyson mewn disgwyliad oes i ddynion ac i fenywod ers 1991-93.

- **Dibyniaeth ar Fudd-daliadau**

Mae canran y bobl 16-64 oed ar fudd-daliadau allweddol wedi disgyn bob blwyddyn rhwng 2000 a 2008. Fodd bynnag, bu cynnydd o 1.6 pwynt canran yn 2009 i 16.4 y cant, a bu cwymp yn 2010 a 2011 i 15.5 y cant yn 2011.

- **Tai**

Roedd y sgôr effeithlonrwydd ynni SAP cyfartalog ar gyfer anheddau yng Nghymru yn 50.3 yn 2008, cynnydd o bedwar pwynt er 2004 ac yn debyg i gyfartaledd Lloegr yn 2008 (sef 51.4). Mae'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) ar gyfer sgôr ynni anheddau yn cyfrifo effeithlonrwydd ynni adeilad. Mae SAP yn rhoi sgôr rhwng 1 a 100, 1 yw'r gwaethaf a 100 yw'r mwyaf ynni effeithlon.

- **Hygyrchedd**

Mae canran y cartrefi lle gellir cyrraedd meddygfa ar droed neu drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mewn 15 munud neu lai wedi aros yr un fath rhwng 2005/07 a 2008/10. Yn yr un cyfnod, bu cynnydd bychan yng nghanran y cartrefi sy'n cyrraedd siop fwyd neu ganolfan siopau ar droed neu drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mewn 15 munud neu lai.

- **Troseddu**

Mae cyfanswm nifer y troseddau meddiangar difrifol a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru wedi haneru bron â bod i 30,000, er 2003-04. Mae'r gostyngiad hwn wedi'i achosi gan lawer llai o ladradau o gerbydau ac o ddwyn neu gymryd cerbydau heb awdurdod. Roedd nifer yr holl droseddau cartref yng Nghymru fesul 10,000 o gartrefi (fel a gofnodwyd gan Arolwg Troseddu Prydain) wedi cynyddu rhwng 2004-05 a 2006-07, cyn disgyn yn raddol i'w lefel isaf yn 2010-11.

## Pennod 6 Lles Cymru

Mae ymagwedd Cymru tuag at ddatblygu cynaliadwy'n seiliedig ar gyfraniad ei phobl ac wedi ymwreiddio yn ei diwylliant cyfoethog ac amrywiol, sy'n cefnogi ac yn cynnal ein traddodiadau, ein hieithoedd a'n treftadaeth. Mae sicrhau cyfle teg yn her barhaus wrth geisio sicrhau Cymru gynaliadwy – lle bydd pob unigolyn â hawliau cyfartal, yn parchu ei gilydd ac yn cyfrannu fel y gallant gyrraedd eu potensial mewn cymdeithas gynhwysol.

### EIN CAMAU GWEITHREDU

Mae'r adrannau canlynol yn amlygu meysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud tuag at ein gweledigaeth ar gyfer lles Cymru.

### Iechyd

Elfen hollbwysig wrth greu Cymru sy'n seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy yw diogelu a gwella iechyd a lles. Rhaid ceisio lleihau cymaint ag sy'n bosibl ar broblemau iechyd sy'n galw am ymyriadau costus a darparu ymatebion brys yn gyflym ac yn effeithiol lle bo'u hangen.

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Law yn Llaw at Iechyd*, sy'n nodi ei hamcanion ar gyfer iechyd a'r gwasanaethau iechyd hyd at 2016 a thu hwnt. Roedd yn cydnabod y berthynas rhwng iechyd a datblygu cynaliadwy ar draws y dimensiynau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Wrth fynd i'r afael â materion iechyd, mae'n ceisio cynyddu ei effaith o ran y canlynol:

a. diogelu a gwella lles cymaint ag sy'n bosibl ar hyd eu hoes
b. sicrhau bod unrhyw wasanaethau a ddarperir mor ddiogel ac effeithiol ag sy'n bosibl, ac yn gynaliadwy dros y tymor hwy, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau prin
c. lleihau unrhyw niwed amgylcheddol o'r gweithgarwch a gyflawnir
d. nodi meysydd lle gall gweithgarwch gefnogi adfywio, arloesedd a ffyniant.

Mae'r ymagwedd hon yn cael ei rhoi ar waith ym maes iechyd ac wrth greu cysylltiadau â pholisïau eraill y llywodraeth. Lle bo'n bosibl, caiff dangosyddion eu datblygu i raddnodi effaith polisïau.

### Gwasanaethau Mamolaeth

Lansiwyd y Weledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru ym mis Medi 2011. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth yn hyrwyddo beichiogrwydd a geni plant fel digwyddiad ag iddo arwyddocâd cymdeithasol ac emosiynol lle caiff menywod a'u teuluoedd eu trin ag urddas a pharch.

Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu allweddol yn cael eu rhoi ar waith. Datblygwyd pum dangosydd canlyniad

a phum mesuriad perfformiad a chaiff y rhain eu defnyddio i fonitro pa mor dda yw'r gwasanaethau mamolaeth am ddatblygu gwasanaethau o safon fyd-eang i fenywod, eu babanod a'u teuluoedd.

Bydd y Grŵp Gweithredu wedi cwblhau ei waith erbyn mis Ebrill 2013. Gofynnwyd i bob Bwrdd Iechyd lunio adroddiad i Lywodraeth Cymru yn nodi eu mesuriadau sylfaenol yn ôl y pum dangosydd canlyniad a'r pum mesuriad perfformiad erbyn mis Gorffennaf 2013.

**Cymru Iach ar Waith**

Mae Cymru Iach ar Waith (CIW) yn gweithio i wella iechyd a lles y boblogaeth trwy ddefnyddio'r gweithle fel lleoliad ar gyfer gwella iechyd. Mae CIW yn cyfrannu at economi gynaliadwy trwy gynorthwyo cyflogwyr i ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni, yn cynnwys Cynlluniau Teithio Gwyrdd, ac i ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy'r sefydliad cyfan.

Mae cyfanswm o 96 cyflogwr wedi ennill Gwobr Iechyd y Gweithle Bach a 67 wedi cyflawni'r Safonau Iechyd Corfforaethol. Cyrhaeddodd 56 cyflogwr Safon Iechyd Corfforaethol a 6 chyflogwr Gwobr Iechyd y Gweithle Bach lefelau sy'n galw am weithredu Cynllun Teithio Gwyrdd.

Enillodd 4 cyflogwr wobr Platinwm; Cyngor Sir Caerfyrddin, Gorsaf Bŵer Wylfa, Coleg Morgannwg, Cyngor Sir Powys. Mae cyflogwyr sy'n ennill gwobrau Platinwm yn esiampl i eraill ac yn arddangos rhagoriaeth ym myd busnes drwy roi ystyriaeth lawn i'w cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol.

**Yr Iaith Gymraeg – Cyhoeddi Strategaeth newydd ar gyfer yr Iaith Gymraeg**

Gweledigaeth y Llywodraeth yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, nod y strategaeth yw gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Cyhoeddwyd Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ar 1 Mawrth 2012, a chyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer 2012/13 ar 31 Mawrth 2012.

Mae dwy elfen graidd i bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth. Yn gyntaf, trwy fesurau i alluogi ac annog plant a phobl eraill i gaffael yr iaith, er enghraifft annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref a sicrhau twf pellach mewn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ail, trwy fesurau i alluogi ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol, er enghraifft darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gwaith, wrth dderbyn gwasanaethau, ac wrth fwynhau adloniant a hamdden.

Hefyd, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynllunio ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau sy'n siarad Cymraeg. Sefydlwyd y grŵp yn uniongyrchol o ganlyniad i bryder ynghylch cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Dros y pum mlynedd nesaf hoffem weld y canlynol:

- cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith
- rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

- cynyddu ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol ac fel sgìl defnyddiol ar gyfer bywyd modern ac ym mhob agwedd ar y cyfryngau digidol
- cryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau

**Cadw – Adeiladau Hanesyddol a Henebion**

Mae Cadw yn hyrwyddo teithio cynaliadwy yn ei holl wybodaeth i ymwelwyr.
Er mwyn annog defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy i'w safleoedd, caiff manylion trafnidiaeth gyhoeddus eu cyhoeddi ar gyfer pob heneb, fel bod modd dod o hyd i'r rhwydweithiau rheilffordd, bws a beicio yn hawdd. Hefyd, buddsoddodd Cadw mewn rheseli beiciau ar 25 o safleoedd henebion. Mae menter ar waith eisoes gyda threnau Arriva, lle gall ymwelwyr sy'n teithio ar y trên i Gricieth a Harlech hawlio mynediad i ddau am bris un i'r cestyll. Yn ystod 2011-12, manteisiodd 500 o ymwelwyr ar y cynnig.

Yn ystod 2011-12, aeth Cadw ati i ymchwilio a datblygu polisi gwirfoddoli. Mae'n glynu at egwyddorion gwirfoddoli ac fe'i paratowyd yn unol â'r canllawiau arfer gorau. Bwriada Cadw i'w bolisi gwirfoddoli newydd fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2013 a bydd yn datblygu cynlluniau peilot pellach ar gyfer stiwardiaid ystafelloedd gwirfoddol mewn adeiladau yn ei ofal fel Castell Coch a Llys Tretŵr. Bellach, mae dros 50 o wirfoddolwyr yn gweithio ym Mhlas Mawr fel stiwardiaid ystafelloedd sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith o ddehongli'r tŷ a'i gynnwys ac ymgysylltu ag ymwelwyr.

Bydd Cadw yn parhau i roi ar waith rhaglen weithredu a amlinellwyd yn y Datganiad Strategol ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn cynnwys cadwraeth amrywiaeth o safleoedd treftadaeth Gymreig eiconig, hyrwyddo technegau cynaliadwy a sgiliau traddodiadol, yn ogystal â sicrhau mynediad ffisegol a deallusol gwell ar gyfer y cyhoedd.

Ym mis Chwefror 2012, dechreuodd gwaith ar raglen ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer y Bil Gwarchod Treftadaeth arfaethedig. Yn sgil 7 gweithdy gyda grwpiau rhanddeiliaid a chynhadledd, cynhelir cyfres o sioeau teithiol yn ystod hydref 2012 i gasglu safbwyntiau'r trydydd sector a chymunedau ar y gwaith o warchod yr amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau yn ystod gwanwyn 2013.

**CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru**

Trwy raglenni isadran CyMAL, a gwaith y cyrff a ariennir gennym, rydym wedi bod yn gweithio ar y canlynol:

- Hyrwyddo ymddygiad gwyrdd a chynyddu effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff a lleihau ôl troed carbon
- Prif ffrydio datblygu cynaliadwy mewn gweithgarwch a chynllunio e.e. strategaethau adeiladu
- Cyflawni safonau amgylcheddol perthnasol (Draig Werdd / BS8555)

Caiff gwasanaeth bysiau newydd ar gyfer defnyddwyr y Llyfrgell Genedlaethol ei lansio ym mis Medi 2012, yn sgil gwaith gan bartneriaeth adfywio leol. Mae'r Llyfrgell

Genedlaethol wedi cynyddu'r defnydd o oleuo rhad-ar-ynni, a systemau oeri mwy effeithlon yn ei hadeiladau.

Yn 2011-12 llwyddodd yr Amgueddfa Genedlaethol i leihau ei defnydd blynyddol o CO2 5.6% o gymharu â 2010-11. Sefydlodd yr Amgueddfa Bolisi a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Caffael i fynd i'r afael â chostau oes gyfan ac effaith caffael a gwerthuso perfformiad amgylcheddol cyflenwyr a chontractwyr.

**Ymgysylltu â phobl ifanc ar Ddatblygu Cynaliadwy (DC) a Newid yn yr Hinsawdd**

Rydym wedi gofyn i Draig Ffynci (y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) ac Eco-ysgolion integreiddio ymgysylltiad â phobl ifanc ar faterion datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd yn eu gwaith craidd.

Mae ein rhaglen Eco-ysgolion lwyddiannus yn helpu ysgolion i feddwl am eu heffaith ar yr amgylchedd drwy ystyried ystod o faterion. Cofrestrodd dros 90% o ysgolion Cymru ar y rhaglen a chyflawnodd dros 700 o ysgolion statws y Faner Werdd. Caiff datblygu cynaliadwy ei gynnwys yng nghylch gorchwyl Eco-bwyllgor pob ysgol ac mae dealltwriaeth y disgybl o ddatblygu cynaliadwy yn un o'r egwyddorion allweddol sydd eu hangen i ennill statws y Faner Werdd.

Caiff pobl ifanc eu haddysgu ynglŷn â datblygu cynaliadwy, ond cânt eu hannog i ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain er mwyn iddynt allu ei roi ar waith yn eu bywydau bob dydd. Mae DC wedi bod yn rhan allweddol o'r prosiectau a drefnir drwy Draig Ffynci, fel bod modd i eraill barhau â phrosiectau a roddwyd ar waith gan aelodau sy'n gadael y sefydliad. Hefyd, mae gweithio gyda Draig Ffynci yn ein galluogi i addysgu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ynglŷn â DC.

**Strategaeth Ymgysylltu ar y Newid yn yr Hinsawdd**

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu ar y Newid yn yr Hinsawdd yn nodi sut y bydd newid mewn ymddygiad cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o gyrraedd ein targedau newid hinsawdd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Nod y strategaeth yw cataleiddio gweithgarwch a helpu pobl, cymunedau a sefydliadau.
Mae'r cynllun cyflenwi sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ar hyn o bryd yn cynnwys y prif brosiectau canlynol:

- Deall rhagor ynglŷn â'r bobl y gobeithiwn ddylanwadu arnynt. Datblygu model cynulleidfa sy'n rhannu poblogaeth Cymru yn gynulleidfaoedd gwahanol ar sail eu gwerthoedd, eu hagweddau a'u hymddygiad mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy.
- Datblygu iaith effeithiol ar gyfer ymgysylltu ac ysbrydoli. Mae ein prosiect naratifau datblygu cynaliadwy yn datblygu ffyrdd o siarad am Gymru gynaliadwy, carbon isel mewn ffordd sy'n denu ac yn cyffroi pobl.
- Gwneud gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn normal ac yn gyffredin. Mae ein hymgyrch gysylltiadau cyhoeddus ar newid yn yr hinsawdd yn cyfleu'r pethau syml y gall pob un ohonom eu gwneud i leihau ein hôl troed carbon.

Mae'r Cynllun Cyflenwi yn cynnwys 17 o gamau gweithredu; mae 5 wedi'u cwblhau a 9 arall yn y broses o gael eu cyflawni mewn pryd.

- Cyflawni naratifau datblygu cynaliadwy mewn gwaith ymarferol
- Lledaenu naratifau datblygu cynaliadwy i adrannau eraill o'r Llywodraeth a rhanddeiliaid allanol
- Defnyddio'r ymchwil segmentu i deilwra dulliau effeithiol o gyfathrebu ar gyfer cynulleidfaoedd wedi'u targedu
- Datblygu'r ymgyrch genedlaethol ar newid yn yr hinsawdd er mwyn dylanwadu ar gynulleidfaoedd i leihau eu hôl troed carbon.

***DVD ac achosion Busnes dros Weithredu***

Ein nod yw cynyddu nifer y Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio DVD a fydd yn rhoi sylw i sut mae rhai Byrddau wedi elwa'n barod o wneud hynny. Mae'r DVD dwyieithog yn cynnwys gwaith arloesol a wnaed ar adeiladu gwydnwch ar gyfer ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Dosbarthwyd y DVD i bob BGLl yng Nghymru ac mae modd ei weld hefyd drwy ddolen YouTube. Caiff y DVD a'r canllawiau a gwblhawyd yn ddiweddar ar lunio achosion busnes ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd yn y sector cyhoeddus eu defnyddio er mwyn annog y Byrddau hynny nad ydynt yn gweithredu ar hyn o bryd i leihau allyriadau carbon i roi cynlluniau priodol ar waith.

**Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Leol Cymru**

Mae Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn gweithio i alluogi awdurdodau lleol i sefydlu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol drwy:

- gynnig cyngor penodol y tu hwnt i'r canllawiau sydd eisoes ar gael;
- nodi meysydd lle gall pob awdurdod lleol weithredu yn syth, yn ogystal â bod yn heriol a chyflwyno syniadau newydd;
- darparu syniadau ymarferol ynglŷn â sut i wneud pethau'n wahanol; a
- helpu i nodi a goresgyn rhwystrau i gyflawni datblygu cynaliadwy.

Yn y flwyddyn gyfredol, mae CLlLC wedi gweithio gyda phedwar prosiect awdurdod lleol, yn datblygu ymarfer newydd ar faterion gwahanol. Mae hyn wedi cynnwys trafod ag arweinwyr a phrif weithredwyr cynghorau ynglŷn â sut i fabwysiadu datblygu cynaliadwy yn eu sefydliad, ac wedi helpu i sicrhau lefel uchel o ymrwymiad a pherchnogaeth o'r gwaith ym mhob un o'r cynghorau. Mae pob cyngor yn rhannu eu syniadau a gwersi a ddysgwyd â chynghorau eraill wrth i'r prosiectau ddatblygu, er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei ledaenu'n ehangach.

Bydd argymhellion y Fframwaith yn parhau i wneud y canlynol:

- cynnal ei rôl fel dull o godi ymwybyddiaeth ac adeiladu gallu o fewn llywodraeth leol yng Nghymru yn gyffredinol;

- canolbwyntio ar elfennau penodol a materion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy er mwyn i ddatblygu cynaliadwy ymwreiddio ym mhrosesau cynllunio strategol a chyflenwi gwasanaeth awdurdodau lleol;
- cynnig cymorth i Awdurdodau Lleol penodol a'u Sefydliadau Partner allu adeiladu sylfaen o arferion gorau;
- canolbwyntio ar rannu arferion gorau a hyrwyddo camau gweithredu ymarferol penodol o fewn llywodraeth leol a'i phartneriaethau strategol;
- gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol a chyrff proffesiynol i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig fel bod datblygu cynaliadwy yn ymwreiddio o fewn llywodraeth leol.

**Cymru o Blaid Affrica**

Mae rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn ceisio cefnogi ymdrechion yng Nghymru i helpu i gyflawni Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm ar gyfer haneru tlodi byd-eang erbyn 2015. Mae'n adlewyrchu'r awydd parhaus i Gymru fod yn genedl sy'n edrych allan ac sy'n cydnabod yn hyderus y cyfraniad y gallwn ei wneud i'r byd fel dinasyddion byd-eang gweithredol a chyfrifol.

*Cyswllt Cymunedol Cymru - Affrica*

Erbyn diwedd 2011-12 roedd prosiect Cyswllt Cymunedol Cymru - Affrica wedi cynorthwyo 103 o sefydliadau cyswllt cymunedol gyda 230 o brosiectau cymunedol yn ymladd tlodi yn Affrica ac yn darparu manteision i'r bobl sy'n ymwneud â'r prosiect yng Nghymru. Cefnogodd Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig y fenter fel un sy'n arwain y byd drwy esiampl.

*Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica*

Yn 2011 - 12 parhaodd Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica i wella'i effaith drwy rannu digwyddiadau dysgu rheolaidd, cyfarfodydd consortiwm ac ymgysylltiad â'r Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol. Roedd y prosiectau'n cynnwys hyfforddi bydwragedd yn Sierra Leone, ambiwlansys beiciau modur yn Uganda a Kenya, a dysgu o bell rhwng Abertawe a Ghana.

*Masnach Deg Cymru*

Cymru yw unig Genedl Fasnach Deg y byd o hyd. Yn 2011-12:

- mae gan 50% o drefi Cymru statws masnach deg
- mae 50% o ysgolion Cymru wedi'u cofrestru ar gynllun gwobrau ysgol Masnach Deg
- cyflwynwyd rhaglen genedlaethol o gymorth i ysgolion yn y 22 sir
- hyfforddwyd 42 unigolyn i gysylltu'n fyw â chynhyrchwyr rhyngwladol mewn 21 sir

*Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol*
Yn 2011-12, cwblhaodd 15 o weithwyr proffesiynol o Gymru 8 wythnos ar leoliad gwaith yn cefnogi sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn Uganda, Zambia, Lesotho a Camerwn.

*Ffocws Datblygu Rhyngwladol*

Yn 2011 sefydlwyd Ffocws Datblygu Rhyngwladol Cymru i gefnogi rhwydweithiau datblygu rhyngwladol yng Nghymru. Ei nod yw gwella cyfraniad bywiog Cymru i faterion rhyngwladol, sydd wedi'i sbarduno gan ymdrechion cymdeithas sifil a gwirfoddolwyr yn ogystal â dyletswydd gyfreithiol y genedl o ran datblygu cynaliadwy.

**Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol**

*Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4SD)*

Ffurfiwyd Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4SD) o 50 o lywodraethau is-genedlaethol mewn 30 o wledydd. Gyda'i gilydd, mae nrg4SD yn cynrychioli tua 600 o diriogaethau yn y byd.
Yn 2011-12 mynychodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Gynulliad Cyffredinol nrg4SD. Roedd presenoldeb y Gweinidog yn y cyfarfod yn dangos ymrwymiad Cymru i ddatblygu cynaliadwy rhyngwladol ac yn galluogi Cymru i weithredu fel esiampl i wladwriaethau a rhanbarthau llai o faint eraill. Defnyddiwyd y Cynulliad hefyd i gynllunio ar gyfer ymwneud llywodraethau rhanbarthol yn Rio+20.

*Gweithredu Tiriogaethol ar y Newid yn yr Hinsawdd*

Partneriaeth o unigolion, sefydliadau cymunedol, sector preifat a'r Llywodraeth yw Gweithredu Tiriogaethol ar y Newid yn yr Hinsawdd sy'n cydweithio i gynyddu cydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd ac i hyrwyddo datblygu cynaliadwy carbon isel yn ardaloedd Mbale, Bududa a Manafwa, Uganda.  Mae'n un o brosiectau Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, ac mae'n derbyn cefnogaeth ariannol gan Lysgenhadaeth Denmarc, Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, a chefnogaeth dechnegol a datblygu gan Lywodraeth Cymru. Yn 2011 bu arbenigwyr o Gymru yn cymryd rhan yn y rhaglen mewn nifer o rolau technegol gan gyfrannu at y Cynllun Hinsawdd Tiriogaethol Integredig.

*Prosiect Miliwn o Goed Maint Cymru*

Caiff y prosiect ei ariannu gan Sefydliad Waterloo a'i reoli gan Cymru o Blaid Affrica. Mae'n cyfrif fel cyfraniad tuag at ymgyrch Maint Cymru. Mae'r cynllun ar waith yn y tair ardal a ddatgoedwigwyd yn helaeth sy'n ffurfio rhanbarth Mbale: Mbale, Manafwa a Bududa. Cymaint yw effaith y prosiect fel iddo gael ei ddewis ym mis Rhagfyr 2011 i fod yn un o ddeg prosiect 'Lighthouse' i'w dangos gan y Cenhedloedd Unedig mewn digwyddiad arbennig gyda Ban Ki-moon yn Uwchgynhadledd y Byd ar y Newid yn yr Hinsawdd. Ar ddiwedd yr ail flwyddyn, mae'r prosiect ymhell ar y ffordd at gyflawni'r targed o blannu miliwn o goed. Ar hyn o bryd, mae 900,000 o goed wedi'u plannu, gan godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phroblemau newid yn yr hinsawdd. Cafodd grwpiau heb lais, yn enwedig menywod, pobl ag anableddau ac ieuenctid eu grymuso i reoli eu planhigfeydd coed eu hunain.

**DANGOSYDDION**

**Prif Ddangosydd Datblygu Cynaliadwy:** Lles yng Nghymru

**Cynnydd:** Ni fu llawer o newid yn sgoriau lles corfforol a meddyliol er 2003/04. Mae'r sgoriau cymedrig meddyliol a chorfforol ar gyfer menywod yn is na'r rheini ar gyfer y dynion, gan awgrymu iechyd a lles gwaeth i fenywod. Yn 2009, canfu astudiaeth beilot Arolwg Cenedlaethol Cymru fod 85 y cant o oedolion yn fodlon â'u bywydau yn gyffredinol, a 4 y cant yn anfodlon.

- **Addysg**

Mae canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi codi o 61 y cant ym 1999 i 80 y cant yn 2011. Mae canran y disgyblion benywaidd sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi bod rhwng 7 a 10 pwynt canran yn uwch nag ar gyfer disgyblion gwrywaidd drwy gydol y cyfnod hwn.

- **Tlodi Plant**

Mae canran y plant yng Nghymru mewn cartrefi incwm cymharol isel ar ôl costau tai wedi disgyn ers 1994/97, ond ar ôl cynnydd dros y blynyddoedd diweddar, mae'r lefel wedi disgyn i'r hyn ydoedd yn 2002/05. Mae cartrefi incwm cymharol isel ar ôl costau tai wedi disgyn ychydig.

- **Tlodi Pensiynwyr**

Mae cwymp wedi bod yng nghanran y pensiynwyr mewn cartrefi incwm cymharol isel cyn costau tai. Mae canran y pensiynwyr yng Nghymru mewn cartrefi incwm cymharol isel ar ôl costau tai bron â bod wedi haneru ers 1994/97. Arweiniodd hyn at gynnydd mawr yn y gwahaniaeth cyn ac ar ôl costau tai ers 2000.

- **Cartrefi Di-waith**

Rhwng 1997 a 2001, cafwyd cynnydd yng nghanran y bobl rhwng16 a 64 oed sy'n byw mewn cartrefi di-waith. Bu cwymp yn y nifer rhwng 2001 a 2008, cyn i'r canran godi yn 2009 a 2010 a disgyn eto yn y flwyddyn ddiweddaraf. Rhwng 1997 a 2001 bu cynnydd yng nghanran y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith. Rhwng 2001 a 2008, disgynnodd y ganran, cyn codi yn 2009 a 2010 a disgyn wedyn yn y flwyddyn ddiweddaraf.

- **Cymryd rhan weithredol yn y gymuned**

Ers 2001 mae canran y bobl sy'n gwirfoddoli'n ffurfiol neu'n anffurfiol o leiaf unwaith y mis yn y 12 mis wedi codi a gostwng bob blwyddyn. Nid oes arwyddocâd ystadegol i'r newidiadau hyn.

- **Yr Iaith Gymraeg**

Mae canran y disgyblion a aseswyd yn rhai Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 wedi codi ers 2000. Mae canran y disgyblion a aseswyd yn rhai Cymraeg Iaith Gyntaf yn disgyn wrth i'r plant dyfu'n hŷn a symud drwy'r cyfnodau allweddol.

**Pennod 7 Adolygiad o Effeithiolrwydd – Y Camau Nesaf**

**Ar ôl pob etholiad Cynulliad Cenedlaethol rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Mae dyletswydd ar Weinidogion i wneud hyn o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Comisiynwyd PricewaterhouseCoopers (PwC) ym mis Awst 2011 i gynnal yr adolygiad annibynnol. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed wrth ymwreiddio datblygu cynaliadwy ledled Cymru a'n parodrwydd i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau. Amlygodd yr adroddiad nifer o'r camau nesaf sydd i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru o ran ymwreiddio datblygu cynaliadwy ymhellach fel y brif egwyddor drefniadol.**

**Er mai ymdrin â'r cyfnod rhwng Mawrth 2010 ac Ebrill 2012 y mae'r Adroddiad Blynyddol hwn, rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar sut rydym yn symud ymlaen gyda'r 19 cam nesaf a nodir yn yr adroddiad. Mae'r gwaith hwn yn sail i'n rhaglen ar gyfer gwneud Llywodraeth Cymru yn sefydliad sy'n esiampl i eraill o ran ymwreiddio datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol.**

<u>Arweinyddiaeth</u>

**1. Mae'r Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig yn rhoi cyfle i Gymru ffurfioli strwythurau a phrosesau i'w helpu i gyflawni ei huchelgeisiau o ran cynaliadwyedd. Dylid cynllunio'r cyfnod ymgynghori a'r broses datblygu polisïau ar gyfer y Bil er mwyn sicrhau cymaint o gyfranogiad ac ymwybyddiaeth â phosibl ymhlith y cyhoedd, sefydliadau cymdeithas sifil a sefydliadau masnachol.**

Mae'r ymgynghoriad ar y Bil Datblygu Cynaliadwy wedi rhoi cyfle i egluro agwedd Llywodraeth Cymry at ddatblygu cynaliadwy i aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd cyfanswm o 21 digwyddiad ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y cyfnod ymgynghori o 10 wythnos, 3927 ymateb ysgrifenedig ac adborth o'r digwyddiadau yn cael eu bwydo i mewn i broses ddatblygu polisi'r Papur Gwyn. Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio ar gyfer y Bil sy'n cynnwys rhanddeiliaid o bob sector er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu a phrofi cynigion y Papur Gwyn.

**2. Annog mwy o gysondeb rhwng uwch weision sifil, a'u priod Adrannau, o ran cytuno ar sut y dylid cymhwyso egwyddorion Datblygu Cynaliadwy i drefniadau gweithredol. Un ffordd o feithrin y cysondeb hwn yw drwy sicrhau y caiff Datblygu Cynaliadwy fel y Brif Egwyddor Drefniadol ei gynnwys yn llawn o fewn ei hyfforddiant sefydlu gorfodol i bob aelod newydd o staff, ac o fewn y Rhaglen Arweinyddiaeth i Uwch Reolwyr, CULTIVAR. Er, yn ddelfrydol, y dylid meithrin gallu Datblygu Cynaliadwy ar draws y sefydliad cyfan, fel blaenoriaeth dylid ei ganolbwyntio ar yr aelodau hynny o staff sy'n rhan allweddol o'r broses gwneud penderfyniadau, yn nodweddiadol Gradd 5 ac uwch. Mae gan gorff rheoli, arwain, hyfforddi a datblygu Llywodraeth Cymru, Rheoli Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ran allweddol i'w chwarae wrth roi'r cam hwn ar waith.**

Fel y dangosir yn yr ateb i gwestiwn 3, rydym wedi mynd ati i sicrhau bod ein prosesau mewnol a'n llywodraethu yn cefnogi datblygu cynaliadwy ac yn sbarduno'r cysondeb hwnnw. O ran hyfforddiant, mae nifer o ymyriadau dysgu a datblygu yn cael eu diweddaru a'u cynllunio i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cam nesaf hwn er mwyn sefydlu Llywodraeth Cymru fel esiampl o ran Datblygu Cynaliadwy a'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu Cynaliadwy – Prif Egwyddor Drefniadol Llywodraeth Cymru – adolygwyd y rhaglen hon gan arbenigwyr a chaiff ei diweddaru i adlewyrchu ymarfer cyfredol a chynnwys gofynion y Bil Datblygu Cynaliadwy yn y dyfodol
- Cyfathrebu, Newid yn yr Hinsawdd a Newid Ymddygiad... Her Arweinyddiaeth Gynaliadwy – parheir i gynnig y seminar arbenigol hon ar draws y sefydliad fel sesiwn feithrin gwybodaeth am arweinyddiaeth gynaliadwy
- e-ddysgu - lluniwyd pedwar modiwl e-ddysgu chwarter awr o hyd i amlinellu'r hyn a olygir wrth arweinyddiaeth gynaliadwy a bydd yn cynnwys modelau arfer gorau yn seiliedig ar ymchwil ac astudiaethau achos
- Cultivar – bydd y rhaglen arweinyddiaeth newydd yn cynnwys yr her arweinyddiaeth gynaliadwy a'r hyn mae hyn yn ei olygu i'r Llywodraeth fel sefydliad sy'n esiampl i eraill
- Derbyn/Cynefino - bydd y cyrsiau derbyn/cynefino ar gyfer pob gweithiwr yn cynnwys egwyddorion ysgogol y sefydliad mewn perthynas â'r Llywodraeth ac yn cynnwys cyfeiriadau at fodelau arfer gorau ac astudiaethau achos

**3. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu mewnol, o fewn Llywodraeth Cymru ac ar ei thraws, yn cefnogi'r broses o gynnwys Datblygu Cynaliadwy fel y Brif Egwyddor Drefniadol yn llawn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut mae rolau ei Bwrdd Cyflenwi a Pherfformiad Strategol a'i byrddau eraill yn sicrhau y caiff Datblygu Cynaliadwy fel y Brif Egwyddor Drefniadol ei adlewyrchu yn eu Cylchoedd Gorchwyl. Gallai Uned Cyflenwi newydd y Prif Weinidog (FMDU) ddarparu man canolog ar gyfer yr her fewnol, gyda chraffu annibynnol allanol gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pum egwyddor i staff eu dilyn wrth iddynt gyflawni eu gwaith. Nid yw'r Egwyddorion Cyflawni Canlyniadau yn ffordd newydd o weithio. Maent yn seiliedig ar ofynion sy'n bodoli eisoes, arferion gorau a thystiolaeth y sefydliad. Mae'r egwyddorion wedi'u seilio ar y canlynol:

Cyd-fynd â rhaglen y Llywodraeth a blaenoriaethau Gweinidogion
Effaith ar bobl Cymru a'r dystiolaeth i gefnogi hynny
Cost ein buddsoddiad
Systemau sydd ar gael i gymell newid
Rheoli'r gwaith

Mae'r egwyddorion yn cydnabod DC yn bendant fel Prif Egwyddor Drefniadol y Llywodraeth a'r diben yw eu cymhwyso i gyd-fynd â hynny yng ngwaith y staff.

**4. Sicrhau bod eglurder ynghylch y trefniadau llywodraethu gwleidyddol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy fel y Brif Egwyddor Drefniadol o fewn y Llywodraeth ac ar ei thraws, a'u bod yn parhau'n addas at y diben.**

Mae Rhaglen Lywodraethu a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi cydnabod rôl a phwysigrwydd DC ac mae'n ymddangos yn amlwg yn y ddwy raglen. Mae egwyddorion DC yn tanategu holl bortffolios a rhaglenni'r Llywodraeth a chaiff ei hyrwyddo gydol oes y llywodraeth gyfredol. Fel rhan o waith ehangach y Llywodraeth ar fod yn esiampl o ymddygiad Datblygu Cynaliadwy byddwn yn cryfhau ein dull o fynd ati er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni gofynion y Bil DC arfaethedig.

**5. Sicrhau bod amcanion personol a chymwyseddau craidd gweision sifil ar bob gradd yn cynnwys cyfrifoldeb dros gyflawni yn erbyn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Gellid gwerthuso hyn fel rhan o Broses Adolygiad Rheoli Perfformiad Llywodraeth Cymru.**

Y cyfarwyddiaethau eu hunain sydd i osod safonau a nodi'r amcanion angenrheidiol ar gyfer cyflawni canlyniadau o fewn y Rhaglen Lywodraethu sy'n benodol i'w cyfarwyddiaeth a'u portffolio gweinidogol.

Gellid gosod yr amcanion yn unigol oherwydd mae'n bosibl y bydd gan unigolion neu dimau sgìl arbennig neu faes arbenigedd a fyddai'n galluogi eu cyflawni. Fel arall, os nodir amcan y mae modd i bawb ei gyflawni beth bynnag fo'u gradd neu eu rôl, bydd y system berfformiad electronig newydd y bwriedir ei chyflwyno o fis Ebrill 2014 ymlaen yn galluogi Cyfarwyddwyr Cyffredinol i raeadru'r amcan i bawb yn y Llywodraeth o'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r Tîm Cymorth. Dylai'r amcanion fod yn benodol, yn fesuradwy, ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod modd cyflawni nodau DC Llywodraeth Cymru. Yna, gellir rhaeadru'r amcanion hyn drwy'r Cyfarwyddiaethau. Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno fframwaith cymhwysedd newydd i'r gwasanaeth sifil o fis Ebrill 2013 ymlaen, ac er bod rhai manteision i'r ffaith ei fod yn amlwg yn cyfeirio at gymhwysedd, cytunwyd y dylid ymwreiddio egwyddorion cynaliadwy drwy'r fframwaith cyfan gan fod hyn yn cydnabod y dylent fod yn ganolog i bopeth a wnawn yn hytrach nag yn elfen ar wahân.

Ymwreiddio Datblygu Cynaliadwy yn y Llywodraeth

**6. Mae'r manylion polisi o fewn y cynllun Datblygu Cynaliadwy presennol yn adlewyrchu Rhaglen Lywodraethu Cymru'n Un y weinyddiaeth flaenorol. Mae angen ystyried sut y gellir cysoni'r Cynllun yn well â'r Rhaglen Lywodraethu newydd. Er ei bod yn amlwg bod y Rhaglen Lywodraethu newydd yn seiliedig ar y cynllun Datblygu Cynaliadwy sy'n bodoli eisoes, mae'r iaith a'r pwyslais wedi esblygu, ac mae perygl y caiff y cynllun Datblygu Cynaliadwy presennol ei ddatgyplu o drefniadau cyflenwi'r llywodraeth oni chânt eu cysoni'n briodol ac yn glir.**

Mae'r diweddariad o'r Rhaglen Lywodraethu, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn ail ddrafftio'r Rhaglen gan ymgysylltu'n llawn â swyddogion polisi sy'n arwain ar ddatblygu cynaliadwy o ran sicrhau cysondeb iaith a mesurau rhwng y cynllun a'r Rhaglen.

Mae'r Bil DC arfaethedig yn gyfle i gryfhau'r gwaith o hyrwyddo DC yng ngwaith y Llywodraeth. Roedd cyhoeddi'r Cynllun DC a'r Rhaglen Lywodraethu ar wahân yn golygu ei bod hi'n anodd sicrhau bod cymaint o gysondeb ag y byddem yn ei ddymuno rhwng y ddau. Bydd natur y Bil DC yn gwneud DC yn berthnasol i holl

raglenni a pholisïau'r Llywodraeth yn y dyfodol. Y broses hon fydd yn sicrhau mai cyfyngedig fydd unrhyw wahanu rhyngddynt.

**7. Parhau i archwilio'r cyfleoedd i egluro ac annog dealltwriaeth gyson o Ddatblygu Cynaliadwy fel y Brif Egwyddor Drefniadol, yn benodol dylai hyn ganolbwyntio ar enghreifftiau ymarferol sy'n dangos Datblygu Cynaliadwy ar lawr gwlad.**

Er mwyn gwella cyfathrebu a dealltwriaeth o'r cysyniadau cymhleth sydd ynghlwm wrth ddatblygu cynaliadwy, rydym wedi ariannu ymchwil sy'n dadansoddi'r ffyrdd y siaredir am ddatblygu cynaliadwy ar hyn o bryd o fewn y Llywodraeth a thu allan, ac rydym wedi profi'r naratifau hyn gyda'r cyhoedd yn gyffredinol. Defnyddiwyd y canlyniadau i ddatblygu pecyn cymorth a gyhoeddir yn ystod yr hydref.

Rydym wedi gweithio gydag ystod o sefydliadau i amlygu nifer o astudiaethau achos sy'n dangos Datblygu Cynaliadwy fel egwyddor greiddiol ar waith yn ymarferol, ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio i ysgogi'r broses ymgynghori ar y Bil arfaethedig. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd i adlewyrchu ymdrechion ehangach sydd ar waith i ymgysylltu'n effeithiol ar ddatblygu cynaliadwy. Rydym yn parhau i ddatblygu enghreifftiau pellach, a byddwn yn defnyddio ystod o gyfryngau a dulliau o ledaenu gwybodaeth i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu gweld yn eang.

**8. Datblygu ffordd fwy systematig o gysoni polisïau ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, a sicrhau y caiff ei rhoi ar waith yn gyson ac ar gam cynnar o'r broses datblygu polisïau. Gellid gwneud hyn drwy broses well ar gyfer y Porth i Bolisïau yn cynnwys asesiad Datblygu Cynaliadwy ffurfiol, gan ddod â thrawstoriad o feysydd polisi ynghyd - ar y lefel briodol - er mwyn nodi achosion o wrthdaro a synergeddau a'u datrys.**

Yn 2011-12, aethom ati i gynllunio a gweithredu proses newydd ar gyfer llunio ac arfarnu polisïau, yn seiliedig ar yr Egwyddorion Sicrhau Canlyniadau (Cydweddiad, Effaith, Cost, Systemau, Rheoli) yn lle'r Porth i Bolisïau blaenorol.

Cyflwynwyd canllawiau newydd i staff ym mis Ebrill 2012, gan ddatgan bod yn rhaid sefydlu achos busnes ar gyfer pob polisi newydd, yn seiliedig ar asesiad cyffredinol o gostau a manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn y tymor byr a'r tymor hir.

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan unrhyw asesiadau effaith penodol sydd eu hangen; rydym wedi bod yn ymdrechu i dynnu sylw mwy amlwg at y gofynion hyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein canllawiau ar ddatblygu a chyflawni polisïau yn atgyfnerthu DC fel y brif egwyddor drefniadol. Cynhyrchwyd Fframwaith Meddwl Buan i helpu llunwyr polisïau i gwmpasu ar gam buan sut y gall eu polisïau gyfrannu at les hirdymor. Mae Egwyddorion Sicrhau Canlyniadau yn gwirio polisïau prawf sy'n cael eu datblygu o ran eu heffaith a'r modd y maent yn cydweddu â pholisïau ehangach.

Sefydlwyd grŵp mewnol newydd – y Grŵp Sicrhau Canlyniadau – i oruchwylio'r defnydd o Egwyddorion Sicrhau Canlyniadau, cadw cofnod o bolisïau sydd yn y

broses o gael eu datblygu, a lle bo angen, i gynnal gweithdai lefel uchel trawsadrannol er mwyn profi polisïau strategol a llywio’r gwaith o gynllunio mentrau newydd.

**9. Er mwyn i drefniadau gweithio trawsadrannol fod yn effeithiol, bydd angen iddynt gael eu hategu gan y broses o ddyrannu'r gyllideb, gan ddarparu fframwaith sy'n annog cyfleoedd ar gyfer cyllidebau cyfun a chyffredin, a dull gweithredu mwy hyblyg o ran staffio. Gall dulliau gweithredu meddalach hefyd helpu i ategu systemau ffurfiol, megis mwy o gyfleoedd i rwydweithio â grwpiau cymheiriaid.**

Ceir sawl ffordd o hwyluso gwaith trawsadrannol, a dim ond un opsiwn yw cyllidebau cyfun neu gyllidebau a rennir ar gyfer hwyluso’r nod hwn, ond mae’n annhebygol o gyrraedd y nod ar ei ben ei hun.

Rydym wedi ymrwymo i weithio ar draws ffiniau er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau i Gymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu’n nodi nifer o themâu trawsbynciol lle bydd adrannau’n darparu ymateb cydgysylltiedig i rai o’r materion mwyaf heriol a wynebwn.

Er enghraifft, daw ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi â rhaglenni ynghyd o bortffolios ar draws y Llywodraeth drwy ddull datblygu cynaliadwy, yn cynnwys Dechrau’n Deg - ein rhaglen ymyrraeth blynyddoedd cynnar; Nyth - ein rhaglen effeithlonrwydd ynni i leihau tlodi tanwydd, Cymunedau yn Gyntaf - sy’n cefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig; a Twf Swyddi Cymru - sy’n creu cyfle gwaith i bobl ifanc di-waith.

Mae sicrhau bod cynlluniau gwariant yn cefnogi ein prif nodau cyflawni yn rhan hollbwysig o reolaeth ariannol dda ac wrth baratoi ein cynigion Cyllideb, byddwn yn adolygu ein cynlluniau gwariant er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau’n cydweddu â’r gwaith o gyflawni ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu. Yn fwyaf diweddar, fel rhan o’r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14, ail-drefnwyd y cyllid mewn sawl maes er mwyn gallu sicrhau canlyniadau trawsbynciol y Rhaglen Lywodraethu yn well.

Mae yna hyblygrwydd bob amser i ymateb i benderfyniadau polisi. Gall Gweinidogion weithio gyda’i gilydd ar feysydd o bwysigrwydd trawsbynciol ac mae ein proses gyllidebol yn galluogi Gweinidogion i drosglwyddo arian rhwng portffolios pan fydd hynny’n hwyluso’r broses.

**10. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth ehangach o'r daith Datblygu Cynaliadwy, dylai unrhyw Gynllun newydd a allai fod yn gysylltiedig â'r Bil Datblygu Cynaliadwy fynegi'r daith yn glir. Dylai nodi cerrig milltir a chyfrifoldebau allweddol o fewn terfynau amser arfaethedig, gan adeiladu ar y llinell amser i Gymdeithas Un Blaned a nodir yn y cynllun Datblygu Cynaliadwy presennol.**

Datblygu cynaliadwy yw’r fframwaith a ddefnyddiwn i ddiffinio’r llwybr datblygu hirdymor ar gyfer Cymru.  Bydd disgrifio’r daith hon yn gyfraniad pwysig tuag at gyfathrebu’r Bil Datblygu Cynaliadwy. Rydym wedi defnyddio ein cynllun presennol i lywio sut rydym ni’n ymdrin â chynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy. Mae bywyd un blaned, fel y’i cynrychiolir gan y dangosydd ôl troed ecolegol, yn debygol o

barhau’n ddull pwysig o fesur cynnydd DC. Mae strategaethau allweddol y Llywodraeth, fel y rhai ar gyfer Gwastraff a Bwyd, wedi cydnabod perthnasedd Cymdeithas Un Blaned o ran y defnydd o ôl troed ecolegol a’n bwriad yw i’r dangosydd hwn barhau’n berthnasol i ddatblygiadau yn y dyfodol.

**11. Sicrhau y caiff systemau eu prif-ffrydio ar draws y llywodraeth, ac y dônt yn fater o drefn. Bydd hyn yn gofyn am gyfathrebu parhaus wedi'i dargedu, er enghraifft, gallai cyfeirio at Ddatblygu Cynaliadwy fel y Prif Egwyddor Drefniadol ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cyfleu'r rhaglen Llwyddo â Llai, meithrin capasiti drwy hyfforddi a chydbwysedd rhwng cymhellion a phrosesau gorfodol. Mae angen cyfathrebu mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn i swyddogion weld buddiannau gwneud pethau'n wahanol, ac er mwyn i unigolion gael eu cynnwys mewn ffordd gadarnhaol wrth wneud newidiadau mewnol. Gellid defnyddio'r Eiriolwyr Datblygu Cynaliadwy i ategu'r broses o gyflwyno nifer o'r agweddau hyn.**

Rydym wedi sefydlu Grŵp Gweithredu DC trawsbynciol i gyfathrebu disgwyliadau ac ymddygiad DC yn gadarnhaol ar draws y sefydliad. Bydd DC fel ein hegwyddor graidd, a goblygiadau’r ddyletswydd datblygu cynaliadwy arfaethedig, yn brif bwnc yn y rhaglen arweinyddiaeth ac ymgysylltu fewnol i staff craidd, Parod at y Dyfodol. Mae’r modiwl hyfforddi DC presennol yn cael ei ddiwygio i roi sylw i’r Bil sy’n dod, ac mae pedwar e-fodiwl annibynnol yn cael eu datblygu. Bydd y rhain ar gael ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol a’r trydydd sector yn ogystal â staff. Hefyd, bydd DC fel ein hegwyddor graidd wedi’i gynnwys hefyd mewn rhaglenni cynefino, ac yn y brif raglen datblygu arweinyddiaeth. Bydd rhaglen gyfathrebu bellach yn cael ei datblygu i egluro’r cynigion a nodir yn y Bil Datblygu Cynaliadwy a’i Bapur Gwyn.

**12. Mae angen nodi mesurau a thargedau Datblygu Cynaliadwy yn gliriach a'u monitro'n fwy rheolaidd er mwyn gwerthuso cynnydd. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn ategu'r adroddiadau perfformiad mewnol chwarterol a'r adroddiadau allanol blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu a gyflwynir ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith hwn anelu at adeiladu ar waith ymchwil rhyngwladol o ran diffinio'r mesurau Datblygu Cynaliadwy priodol a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan PwC ar hyn o bryd i helpu i nodi amrywiaeth o fesurau Datblygu Cynaliadwy mewnol.**

Mae cydberthynas glòs rhwng y dangosyddion DC a’r rhai sy’n bodoli ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu, gyda sawl un yn ymddangos yn y ddwy set o ddiweddariadau. Caiff y set bresennol o ddangosyddion DC eu harchwilio fel rhan o ymarfer ymgynghori ar ddiwedd 2012. Bydd hyn yn gyfle i ystyried y dystiolaeth orau posibl ynglŷn â mesuriadau cynnydd hirdymor. Yn yr un modd, caiff y Rhaglen Lywodraethu ei hadolygu’n barhaus er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu a’r dangosyddion yn briodol. Bydd y Papur Gwyn ar y Bil Datblygu Cynaliadwy yn ystyried sut gall sefydliadau nodi’n glir y canlyniadau maent yn gweithio tuag atynt a mesurau cynnydd priodol.

**13. Mae sicrhau bod y negeseuon sy'n gysylltiedig â Datblygu Cynaliadwy fel y Brif Egwyddor Drefniadol yn agwedd allweddol ar holl gyfathrebiadau Llywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys pob cyhoeddiad am ddatblygiadau polisi a datblygiadau deddfwriaethol.**

Mae negeseuon craidd Llywodraeth Cymru wedi'u llywio gan y gwaith ar gyfathrebu DC, ac yn cynnwys cyfeiriadau at wneud y penderfyniadau hirdymor gorau i Gymru. Cafodd yr ymchwil ar lunio negeseuon ei rhannu â'r cyfathrebwyr arweiniol ym mhob adran, ac fe'i gwelir fel datblygiad cadarnhaol i ddangos sut mae gwaith y Llywodraeth yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun DC.

**14. Bu rôl Eiriolwyr Datblygu Cynaliadwy yn aeddfedu ac mae cyfle i'r rhwydwaith hwn gael ei ffurfioli fwy. Gallai hyn gynnwys pennu rolau a chyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd cliriach.**

Cytunodd yr Eiriolwyr fod angen diwygio'r gynrychiolaeth, ac y byddai rôl fwy ffurfiol yn y sefydliad yn helpu'r grŵp i fod yn fwy effeithiol. Gofynnwyd iddynt am awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai eu rôl fod yn fwy rhagweithiol i helpu i ymwreiddio DC fel y brif egwyddor drefniadol, a bydd hyn, yn ogystal â chynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl newydd i'r rhwydwaith yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf (20 Tachwedd 2012).

<u>Galluogi Eraill</u>

**15. Atgyfnerthu'r trefniadau ymgysylltu a chydweithredu â'r gymdeithas sifil ehangach ymhellach drwy rôl ffurfiol y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a'r corff Datblygu Cynaliadwy newydd arfaethedig.**

Mae'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy wedi parhau i ddarparu arweiniad ac awdurdod i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth y Llywodraeth o Gymru gynaliadwy. Mae hyn wedi cynnwys rôl allweddol yn natblygiad y Bil DC arfaethedig, yn enwedig o ran Grŵp Cyfeirio allanol ar gyfer y Bil yn ogystal ag amryw o weithgareddau ymgysylltu ehangach ar ddatblygu cynaliadwy. Rhagwelwn y bydd gan y Corff CD newydd rôl hollbwysig o ran darparu cyngor, canllawiau a chymorth i gymdeithas sifil ynglŷn â sut i arddangos CD yn eu gwaith.

**16. Sicrhau y caiff trefniadau gwell ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, ac yn arbennig bartneriaid cyflenwi, eu cynnwys wrth ddatblygu polisïau ac wrth roi mentrau ar waith er mwyn sicrhau bod opsiynau yn ymarferol ac yn realistig ac yn cyflawni amcanion y cynllun Datblygu Cynaliadwy.**

Mae'r Tîm Ymddygiadau Cynaliadwy ac Ymgysylltu bellach ar Weithgor Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cymru, a gefnogir gan Cyfranogaeth Cymru, ac mae'n gweithio i godi safonau a chynyddu'r graddau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau. Rydym wedi gweithio gyda'r grŵp hwn i wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y ddyletswydd arfaethedig er mwyn dangos sut y gall ymgysylltu go iawn a chynnar wella'r broses o ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau.

**17. Mae angen i Lywodraeth Cymru, a'r sector cyhoeddus ehangach, fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sbardun a ddarperir gan wariant cyhoeddus. Bydd ymgysylltu â chyflenwyr yn rhan allweddol o unrhyw strategaeth caffael**

**cynaliadwy, a dylid atgyfnerthu gallu swyddogion i gynnal y sgyrsiau hynny gyda chyflenwyr.**

Mae Gwerth Cymru yn defnyddio gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru, sef tua £4.3 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau allanol, fel sbardun i wella'r broses o wneud penderfyniadau hirdymor a chreu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Lansiwyd "Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig" yn 2006 ac mae pob sefydliad Sector Cyhoeddus mawr yng Nghymru wedi llofnodi'r Siarter.

Un o ymrwymiadau'r Siarter yw hysbysebu contractau ar www.gwerthwchigymru.co.uk Trwy gofrestru am ddim, gall cwmnïau ddynodi pa feysydd cynnyrch a gwasanaeth sydd o ddiddordeb iddynt a phan fo sefydliad sector cyhoeddus yn hysbysebu cyfle, anfonir hysbysiadau e-bost at bawb sydd â diddordeb. Mae dwy ran o dair o'r cwmnïau ar gwerthwchigymru wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae'r mentrau hyn wedi helpu i wneud contractau sector cyhoeddus yn fwy hygyrch. Mae canran gwariant y sector cyhoeddus i gwmnïau yng Nghymru wedi codi o 35% yn 2003 i 49% yn 2006. Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu ei fod bellach dros 50%

Fodd bynnag, cydnabyddir bod cwmnïau bach yn dal i wynebu rhwystrau. Gwelodd yr adroddiad "Ymchwil i Rwystrau – Cyfleoedd Caffael" (2009) fod cyfran fawr o'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ystod cam dethol (neu gyn-gymhwyso) proses gaffael yn union yr un fath, ac eto gofynnir amdani dro ar ôl tro mewn fformatau gwahanol. Hefyd, daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid hysbysebu rhagor o gyfleoedd o werth is ac y dylai prynwyr wneud y broses asesu'n gliriach a rhoi gwell adborth i gynigwyr aflwyddiannus.

Mae cyfres o gwestiynau cyffredin a phroses yn seiliedig ar risg wedi'u datblygu. Gwneir defnydd cynyddol o'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ac yn ystod 2013 bydd yn cael lle ar wefan newydd gwerthwchigymru gan alluogi cyflenwyr i storio ymatebion.

Mae prif ffrydio'r defnydd o gymalau Manteision Cymunedol yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Mae polisi Mantais Gymunedol y Llywodraeth yn hyrwyddo cynnwys cymalau cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus. Llwyddodd y polisi i helpu awdurdodau caffael i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth trwy gontractau sector cyhoeddus. Mae'r awdurdodau caffael a'r gymuned gyflenwi fel ei gilydd wedi croesawu'r datblygiad. Mae ystod o gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn cael eu cyflenwi, yn cynnwys Prentisiaethau a Llwybrau at Brentisiaethau yn ogystal â lleoliadau gwaith i unigolion difreintiedig.

Mae'r rhaglen cyfnewidcymru wedi ysgogi defnydd cynyddol o gaffael electronig ar gyfer trafodion yn amrywio o ddod o hyd i gyflenwyr, cyhoeddi/derbyn tendrau,

gwerthuso cynigion i archebu a thalu. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13 amcangyfrifir bod y rhaglen wedi helpu i arbed 3 miliwn tudalen o bapur A4, sy'n cyfateb i 322 o goed a 19 tunnell o $CO_2$.

Mae'r offeryn mesur Mantais Gymunedol sy'n helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i fesur effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol contractau mawr (gweler uchod) yn cynnwys adrannau ar wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, lleihad yn y nwyon a gynhyrchir sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

Cafodd y canllawiau a'r dulliau a ddatblygwyd gan Gwerth Cymru eu cynhyrchu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ynghyd â chynrychiolwyr o'r TUC, y byd academaidd a byd y gyfraith, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Cwrs Hyfforddi ar Gaffael Cynaliadwy, "Gwneud iddo Ddigwydd", sy'n rhoi canllawiau a dulliau ymarferol o sicrhau bod cynaliadwyedd yn fater allweddol. Mae'r cwrs yn hyrwyddo defnydd o'r templed Asesu Risg Cynaliadwy sy'n galw am ystyriaeth o effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol penderfyniadau prynu. Caiff yr Asesiad Risg Cynaliadwy ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer pob pryniant dros £25,000 o fewn y Llywodraeth a'r GIG a gwneir defnydd cynyddol ohono gan y sector cyhoeddus ehangach.
- Yn sail i hwn mae'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy sy'n galluogi pob sefydliad Sector Cyhoeddus yng Nghymru i hunanasesu eu perfformiad o ran datblygu cynaliadwy, i feincnodi eu perfformiad yn erbyn sefydliadau eraill ac i gynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella perfformiad o flwyddyn i flwyddyn.
- Hefyd, darparwyd sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â Manteision Cymunedol a gwneud defnydd o'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr i dros 600 o unigolion o'r sector cyhoeddus.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr uchod ynghyd â chanllawiau cyffredinol ar arferion caffael da ar y Cynlluniwr Siwrnai Caffael, yn www.prynwchigymru.co.uk

Gwerth Cymru sy'n trefnu'r cynllun "Defnyddio Doniau Cymru" a ariennir gan Ewrop ac sydd wedi recriwtio a hyfforddi 22 o bobl ifanc dros 3 blynedd, a'u cymhwyso yn yr arferion caffael gorau. Mae fframwaith cymhwysedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob aelod o staff caffael drwy Gymru ynghyd â chontract hyfforddi i helpu i gyflwyno sgiliau proffesiynol. Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr holl waith hwn.

**18. Dylid defnyddio rhwydwaith y Siarter Datblygu Cynaliadwy a'r cwmnïau 'Angori' yn fwy effeithiol i ymgysylltu'n ehangach â sefydliadau'r sector preifat a'r gymdeithas sifil ledled Cymru. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen i'r sector preifat roi'r un trefniadau ymgysylltu ar waith er mwyn iddynt fod yn ystyrlon.**

Mae'r rhwydwaith wedi tyfu'n gyson ers ei lansio yn 2010. Ar hyn o bryd, mae ganddo 130 o aelodau, yn amrywio o gyrff sector cyhoeddus a thrydydd sector, i gwmnïau mawr byd-eang, busnesau bach a chanolig a chwmnïau bach yn y sector

preifat. Caiff y Siarter ei hymestyn yn raddol i sicrhau y gall ddatblygu’n effeithiol a bod modd cefnogi’r aelodau’n briodol.

Ym mis Mai, cyfarfu aelodau’r Siarter yn eu digwyddiad blynyddol yng Nghaerdydd a oedd yn gyfle i rannu profiad o heriau a llwyddiannau, a thrafod y cyfeiriad y dymunir i rwydwaith y Siarter anelu tuag ato. Dyma oedd y grŵp cyntaf i gyfrannu eu safbwyntiau i broses ymgynghori’r Mesur.

Mae rheolaeth o Rwydwaith y Siarter wedi’i gontractio i Cynnal Cymru, a bydd yn rhan integredig o’r ymgysylltiad ehangach a gyflenwir ganddynt ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym wedi comisiynu adolygiad o’r Siarter i nodi opsiynau ar gyfer ei wneud mor effeithiol â phosibl.

**19. Lle mae gan Lywodraeth Cymru lai o allu i ddylanwadu ar ei hasiantau cyflenwi megis gyda Llywodraeth Leol, dylai geisio galluogi cyrff a sefydliadau eraill i helpu i gyflenwi drwy ddarparu cymorth ac adnoddau wedi'u targedu. Mae'r gwaith galluogi sy'n cael ei wneud gan CLlLC a'i Fframwaith Datblygu Cynaliadwy yn enghraifft dda o hyn.**

Mae’r Fframwaith DC yn dal i gael ei ariannu gan y Llywodraeth ar lefel uwch eleni. Cafodd yr arian ei ganolbwyntio ar nifer fach o awdurdodau ymroddedig er mwyn creu newid arwyddocaol: mae’r dysgu’n cael ei rannu ag awdurdodau eraill wrth iddo ddatblygu. Rydym wedi gofyn i Cynnal Cymru weithio gyda CLlLC i rannu dysgu ar draws y sectorau, ac i sicrhau’r fantais orau o’r gwaith hwn. Rydym yn edrych ar fodelau a gynigir gan Cynnal Cymru a’r Fframwaith CD i lywio proses ymgysylltu ehangach i alluogi gweithredu, gan adeiladu ar yr hyn i ni ei ddysgu o’r Strategaeth Ymgysylltu ar y Newid yn yr Hinsawdd.

**Pennod 8 Adrodd ar Gyflwr yr Ystâd**

Yn yr adran hon, rydym wedi edrych ar ystod o weithgareddau ar draws Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi CD. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ar hyrwyddo amcanion cydraddoldeb, cefnogaeth i staff, gwirfoddoli, yr iaith Gymraeg, codi arian a pherfformiad ynni ystâd weinyddol Llywodraeth Cymru.

| | | Math o Weithgarwch | Prif Gyflawniadau | Targedau a Naratif |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Lles Staff** | | **Cydraddoldeb** | Datblygodd Ymchwilwyr Cymdeithasol Llywodraeth Cymru sylfaen dystiolaeth gychwynnol i helpu i lywio datblygiad Amcanion Cydraddoldeb a nodi meysydd lle gallant fod yn fwyaf effeithiol. Mae rhaglen ymgysylltu wedi helpu i lunio'r amcanion a chadarnhau ein bod yn blaenoriaethu'r meysydd anghydraddoldeb y dylem fod yn canolbwyntio arnynt.<br>Mae'r ymgysylltu sylweddol a fu â'r cyhoedd wedi dangos cefnogaeth gref i amcanion cydraddoldeb y Llywodraeth, gan ategu eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau pobl â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. | Cyflwynwyd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mawrth a'u trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth. Cymeradwyodd y Cynulliad y rheoliadau a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011.<br>Yn sgil cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ac amcanion, byddwn yn parhau i ymgysylltu a monitro ac adolygu'r rhain i sicrhau bod ein hamcanion cydraddoldeb yn arwain at newid go iawn. |
| | | **Iechyd Galwedigaethol** | Ym mis Gorffennaf 2012, enillodd y Llywodraeth wobr arian y Safon Iechyd Corfforaethol.<br>Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i gael ei hailachredu â safon "Buddsoddwyr mewn Pobl".<br>Ym mlwyddyn galendr 2011 cynorthwyodd y Rhaglen Cymorth i Weithwyr 1033 o staff neu eu perthnasau (naill ai drwy eu gwefan neu gymorth cwnsela/dros y ffôn). Mae'r ffigur defnydd blynyddol (19.11%) yn llawer uwch na | Bob blwyddyn mae'r Bwrdd yn cytuno ar ddatganiad Iechyd, Diogelwch a Lles, sy'n cael ei lofnodi gan y person uchaf ei statws ar y Bwrdd, sef yr Ysgrifennydd Parhaol fel rheol. Mae'r datganiad yn cadarnhau ymrwymiad ar y lefel uchaf i iechyd, diogelwch a lles holl staff y Llywodraeth. Cafodd staff ym mhob rhan o'n hystâd eu hannog i fynychu'r digwyddiadau canlynol:<br>1. Sesiynau rhoi gwaed<br>2. Sesiynau'r Gymdeithas Strôc (sy'n mesur |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | chyfartaledd y diwydiant (4.8%) sy'n arwydd da iawn fod ein staff â gwybodaeth dda am wasanaeth y rhaglen. | pwysedd gwaed)<br>3. Sesiynau i annog staff i feicio i'r gwaith<br>4. Diwrnod dim ysmygu (ym mis Mawrth)<br>5. Amryw o "ddyddiau ymwybyddiaeth cenedlaethol" fel strôc, canser, canser y prostad, clefyd Alzheimer ac ati. |
| | | **Gwirfoddoli** | Nifer y dyddiau gwirfoddoli unigol ar gyfer y cyfnod oedd 272.50 diwrnod, yn cymryd rhan mewn 12 math gwahanol o brosiect/elusen yn cynnwys Elusennau'r Flwyddyn Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Alzheimer ac Offer ar gyfer Hunanddibyniaeth | - Gall pob un o weithwyr y Llywodraeth fanteisio ar absenoldeb arbennig er mwyn gwirfoddoli a chynnwys gwirfoddoli yn eu proses adolygu rheoli perfformiad fel rhan o'u cyfleoedd datblygu.<br>- Mae Rhaglen Ddatblygu Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO) Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i unigolion fynd ar leoliad hirdymor a chadw mewn cysylltiad drwy Grŵp Alumni ILO.<br>- Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys modiwl arbennig ar weithgaredd gwirfoddol.<br>- Bydd unigolion Llywodraeth Cymru ar y Rhaglen Swyddogion Trywydd Cyflym yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol fel rhan o'u rhaglen ddysgu.<br>- Gwobrau Gwirfoddoli yn dathlu llwyddiannau a gwaith da gwirfoddolwyr fel y'u henwebir gan eu cydweithwyr.<br>- Cyflwyno cymwysterau gwirfoddoli achrededig.<br>- Sicrhau bod cyfleoedd datblygu ar gael ar gyfer gwaith penodol.<br>- Gwella'r drefn o lunio adroddiadau am weithgaredd gwirfoddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Yr Iaith Gymraeg** | Cyhoeddwyd y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ym mis Mawrth 2011, ac roedd yn cynnwys cynllun gweithredu a dangosyddion perfformiad allweddol am y tro cyntaf i'n helpu i weithredu'r Cynllun ymhellach yn cynnwys:<br>- Paratoi adroddiadau ar nifer a chanran y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl Adran (yn seiliedig ar hunanasesiadau staff)<br>- Paratoi adroddiadau ar nifer y staff sy'n dilyn cwrs Cymraeg i Oedolion a drefnwyd gan Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru<br>- Mae pob cwrs hyfforddi gorfodol sy'n rhan o hyfforddiant craidd y Llywodraeth ar gael yn Gymraeg<br>- Creu Gwobr Iaith Gymraeg newydd yn rhan o Wobrau Llywodraeth Cymru 2012 | |
| | | **Her Elusennau** | Nifer yr Eiriolwyr Elusennau ar draws y Llywodraeth ar gyfer 2011 – 45 o eiriolwyr elusennau mewn 14 swyddfa Llywodraeth Cymru ledled Cymru<br>- Penodwyd elusennau newydd ar gyfer y flwyddyn – Bywyd i Famau Affrica a Marie Curie<br>- Trefnwyd llawer o ddigwyddiadau newydd a ysbrydolodd gydweithwyr i godi arian – yn cynnwys beicio drwy Gymru, rasys marathon noddedig, X factor Llywodraeth Cymru, parti Nadolig, a marchnadoedd Nadolig a gynhaliwyd mewn amryw o swyddfeydd.<br>- Codwyd dros £20,000 i'r elusennau dros y cyfnod o 12 mis (Ionawr – Rhagfyr) | - Crëwyd rhwydwaith i gydweithwyr weithio ar draws yr adrannau y tu allan i'w cyfrifoldebau gwaith, ac i ddatblygu sgiliau mewn amryw o feysydd. Mae bod yn rhan o'r rhwydwaith wedi annog ac ysbrydoli'r Eiriolwyr Elusennau i godi cymaint o arian â phosibl i'n helusennau ar gyfer y flwyddyn<br>- Roedd y ddwy elusen wrth eu boddau ac yn werthfawrogol iawn o'r cymorth a gawsant a'r hwb i ymwybyddiaeth y cyhoedd |
| | | **Mind Matters** | Cafodd Mind Matters ei roi ar restr fer Gwobrau Amrywiaeth a Chydraddoldeb y Gwasanaeth Sifil, yn y categori Arloesedd mewn Arferion Cyflogaeth. | Ers cael ei sefydlu yn Hydref 2009, mae Mind Matters wedi helpu dros 100 o gydweithwyr. Mae ei gyfarfodydd anffurfiol, a fynychir gan 15 aelod ar gyfartaledd, yn ymwneud â dod at ein gilydd, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | - Mae'r grŵp gwirfoddol hwn wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi cydweithwyr ar draws ein hystâd.<br>- Mae cyrraedd y rhestr fer am wobr genedlaethol yn brawf o'u gwaith caled a'u hymroddiad.<br>- Mae cynrychiolwyr y grŵp yn gobeithio mynychu'r seremoni wobrwyo ym mis Hydref lle byddant yn cystadlu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Erlyn y Goron am y wobr fawr ei bri hon. | cyfnewid gwybodaeth ddefnyddiol, cael hwyl, rhannu profiadau a dod o hyd i ffyrdd o ymdopi â nhw. Mae cefnogaeth gan gymheiriaid yn seiliedig ar y syniad mai'r bobl orau i'n helpu drwy amserau anodd yn aml yw'r bobl hynny sydd wedi bod drwy'r un peth eu hunain. Mae'r grŵp yn mynd o nerth i nerth a bydd yn dechrau grŵp cymorth newydd yn swyddfa Merthyr Tudful yn yr hydref. Mae tua 150 o staff wedi cymryd rhan yn ein swyddfeydd ym Mharc Cathays, Aberystwyth, Cyffordd Llandudno a'r Ganolfan QED. |

| | | Math o Weithgarwch | Prif Gyflawniadau | Targedau a Naratif |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Rheoli'r Ystâd ac Effeithiau Amgylcheddol** | | **Maint yr Ystâd** | Gostyngiad o 5.58% ym maint ystâd Llywodraeth Cymru | Cafwyd gostyngiad yng nghyfanswm arwynebedd ystâd weinyddol Llywodraeth Cymru o 97,960 metr sgwâr i 92,497 metr sgwâr (5.58%), sef y gostyngiad canrannol blynyddol mwyaf ers 2008. Mae'r ganran o ofod gwag yn parhau o dan y cyfartaledd ar gyfer y sector preifat ac yn is na'r ystâd sifil orfodol. |
| | | | Gostyngiad yn nifer y swyddfeydd ar draws Cymru, o 49 i 41 | Ar 31 Mawrth 2012 roedd yr ystâd yn cynnwys 41 o swyddfeydd gweinyddol craidd, 8 yn llai nag yn 2011, sy'n ostyngiad o 16%. Mae hyn yn unol â Strategaeth Leoli 2010-15 sy'n anelu i greu llai o swyddfeydd mwy o faint a mwy effeithlon. |
| | | | Gellir gwacáu 82% o'r ystâd brydlesol o fewn y 3 blynedd nesaf | Delir ystâd brydlesol Llywodraeth Cymru ar dermau hyblyg iawn. Cyflawnwyd hyn drwy drafod gofalus dros nifer o flynyddoedd. Yn y tair blynedd nesaf, gellir gwacáu 82% o'r ystâd brydlesol naill ai drwy dorri prydles neu drwy beidio ag adnewyddu prydles pan ddaw i ben. |
| | | **Cost** | Gostyngiad yng nghostau deiliadaeth blynyddol o £974,524 (5.3%) | Yn ystod y flwyddyn gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghostau rhedeg cyffredinol yr ystad. Cyfanswm costau deiliadaeth ar 31 Mawrth 2012 oedd £17,518, 663, sy'n ostyngiad o £974,524 (5.3%) ers 31 Mawrth 2011 a gostyngiad o £2,500,000 (12.5%) ers 31 Mawrth 2008. |
| | | **Effeithlonrwydd** | Mae cost cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng o £3,497 i £3,418 (2.5% o arbediad) | Mae costau rhent a threthi yn is na'r llynedd ac er bod costau eraill wedi codi £8.83 y metr sgwâr, mae cost effeithlonrwydd cyffredinol wedi gwella rhywfaint. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Hefyd, mae defnydd effeithlon o ofod wedi gwella gan arwain at gyfanswm costau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2011/12 o £3,418 o gymharu â £3,497 ar gyfer 2010/11. |
| | | | Y ffigur cyfatebol ar gyfer Ystâd y Llywodraeth Ganolog yw £4,608/cyfwerth ag amser llawn | Y ffigur cyfatebol diweddaraf ar gyfer Ystâd y Llywodraeth Ganolog (2010/11) yw £4,608/cyfwerth ag amser llawn. Noda'r Adroddiad ar Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd Ystâd Sifil yr Alban (2010/11) ffigur o £3,447/cyfwerth ag amser llawn. |
| | | | Gwelwyd gwelliant yn y defnydd effeithlon o ofod ar draws yr ystâd 2.7%. Cafwyd gwelliant sylweddol yn y de-ddwyrain a'r de-orllewin. | Rhwng 2008 a 2010 gwelwyd tueddiad cyson tuag at wella defnydd o ofod ar draws ystâd Llywodraeth Cymru o ganlyniad i gyflawni arferion gwaith newydd a rhesymoli ehangach. Roedd defnydd effeithlon o ofod ar 31 Mawrth 2012 yn 18 metr sgwâr/cyfwerth ag amser llawn, ond mae hwn ymhell uwchben y ffigur meincnod o 11.7 metr sgwâr/cyfwerth ag amser llawn a hefyd ymhell uwchben ffigur ystâd y Llywodraeth Ganolog, sef 13.2 metr sgwâr/cyfwerth ag amser llawn a ffigur Ystâd Sifil yr Alban o 14.4 metr sgwâr/cyfwerth ag amser llawn. |
| | | **Perfformiad Amgylcheddol** | Datblygu Strategaeth Rheoli Carbon bum mlynedd gyda chynllun gwaith cysylltiedig | Drwy gwblhau ymarfer ailstrwythuro mewnol ym mis Ebrill 2011, llwyddwyd i ymgorffori tîm Rheoli Amgylcheddol Llywodraeth Cymru o fewn y brif swyddogaeth o reoli eiddo a chyfleusterau. Datblygiad Strategaeth Rheoli Carbon bum mlynedd gyda Chynllun Gweithredu cysylltiedig yn amlinellu strategaeth y Llywodraeth ar gyfer sicrhau 25% o ostyngiad mewn allyriadau $C0_2$ erbyn 2020. |
| | | | Wedi rhagori ar y targedau ar gyfer lleihau carbon, gan ostwng $CO_2$ 15% (sy'n cyfateb i 1770 tunnell o $CO_2$) | Daw'r gostyngiad o 15% mewn allyriadau $CO_2$ yn 2011/12 yn sgil y camau gweithredu canlynol:<br>- Gwelliannau yng nghywirdeb data rheoli carbon gan fynd ati i reoli perfformiad adeiladau drwy ddefnyddio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | technegau diagnostig manwl gywir;<br>- Gweithredu gwasanaethau adeiladau a thechnoleg TGCh mwy effeithiol;<br>- Defnydd o ddata mesuryddion effeithiol i nodi arferion sy'n gwastraffu ynni;<br>- Rhaglen resymoli'r ystâd |
| | | | Gostyngiad o 15% yn y defnydd o ynni yr awr cilowat (Kwh) | Ar ddechrau 2011/12, cynyddodd cost gyfartalog flynyddol uned o drydan dros 22% a chynyddodd cost uned o nwy tua 29%. Yn ystod 2011/12, cafwyd gostngiad yn y defnydd gwirioneddol o ynni kWh 15% sydd, er gwaethaf y cynnydd yng nghost y cyfleustodau hyn, yn cyfateb i arbediad ariannol o £281,722 |
| | | | Ailgylchu 66% o'r holl wastraff ym mhrif swyddfeydd y Llywodraeth | Tared yr ystâd weinyddol yw ailgylchu 80% o'i gwastraff. Yn 2011/12, ailgylchwyd 66% o wastraff wedi'i brosesu, gostyngiad o 1% ers 2010/11. Yn galonogol, cafwyd gostyngiad yng nghyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd ar y prif safleoedd yn cynnwys Parc Cathays, ac roedd cyfanswm o 89% o'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu yn ein swyddfa yng Nghyffordd Llandudno |
| | | | Ers 2010/11, cafwyd gostyngiad o 70 tunnell yn y papur y mae'r Llywodraeth yn ei brynu, a chaiff 41% yn llai o bapur ei ddefnyddio | Deilliodd gostyngiad sylweddol yn y defnydd o bapur o ganlyniad i nifer o fentrau o fewn y Llywodraeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; y mwyaf allweddol ohonynt oedd gosod system rheoli cofnodion a dogfennau electronig newydd. Mae hyn wedi lleihau'n ddybryd yr angen i ddefnyddio ffeiliau ac i argraffu dogfennau copi caled. Cwblhawyd y gwaith o gyflwyno'r prosiect hwn yn ffurfiol ym mis Mai 2011 ac rydym yn disgwyl gweld gostyngiadau pellach yn y defnydd o bapur dros y 12 mis nesaf. |